# Y DINESYDD

Gorffennaf Awst 2021 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 460 £1.20






**Ymddeoliad rhai o hoelion wyth pwyllgor *Y Dinesydd***

**td.18 –19**

**Ymgyrch i godi arian er cof am Sion Mullane**

**td.5**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Wyn Mears**

***Golygydd Medi***
***David Charles***

Cyfraniadau erbyn 27 Awst i:
davidcharles10@btopenworld.com
07885 905318

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Hwyl yr Haf

Rydym mor falch o allu cynnig ein cynlluniau gofal gydol dydd (8:30yb-5:30yh) a chroesawu'r plant i'n safleoedd yn ysgolion Treganna (20 Gorffennaf hyd 20 Awst) a Melin Gruffydd (21 Gorffennaf hyd 20 Awst) dros y gwyliau (£25 y dydd).

Bydd ein cynlluniau chwarae agored 'Bwrlwm', hefyd yn rhedeg dros yr haf i blant Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 6. Byddwn ni'n cynnal sesiynau ar draws y brifddinas o ddydd Llun, 26 Gorffennaf am 3 wythnos; 4 diwrnod yr wythnos (Llun-Iau). Ar yr un dyddiadau yn y Fro, bydd 'Bwrlwm' yn symud o le i le gyda'r lleoliadau'n cynnwys Penarth, Y Barri a Llanilltud Fawr. Cofiwch fod sesiynau 'Bwrlwm' AM DDIM ond RHAID bwcio o flaen llaw.

I'r rhai yn eu harddegau a hŷn, mae llu o weithgareddau difyr ar y gweill gan gynnwys sesiwn Arlunio Blodau Gwyllt gydag Efa Lois (darlunydd swyddogol Tafwyl) ar ddydd Sadwrn, 10 Gorffennaf a chwrs Animeiddio, 4 wythnos o hyd, yn dechrau ddydd Iau, 22 Gorffennaf.

Cynhelir nifer o sesiynau diddorol i'r oedolion hefyd. Yn dilyn llwyddiant ein taith gerdded yn y Bont-faen, bydd cyfle i fynd am dro ar hyd yr arfordir yn ardal Llanilltud Fawr ar ddydd Mawrth, 20 Gorffennaf - a threfnir taith arall ddydd Iau, 19 Awst.

Bydd Alun Rhys Chivers yn trafod criced nos Fercher, 21 Gorffennaf am 7:30 yng nghwmni tri arbenigwr, Edward Bevan, Gareth Lanagan a Jeff Evans. Nos Iau, 22 Gorffennaf, Non Vaughan Williams o Brifysgol Abertawe fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis gan fwrw golwg yn ôl ar y gyfres deledu, 'Heddiw'.

Cofiwch hefyd am ein gwersi ffitrwydd newydd i'r rhai dros 75 oed, mewn partneriaeth â Re-engage Cymru. Anna Reich fydd yn arwain y sesiynau, yn y ganolfan chwaraeon yng Ngerddi Soffia bob bore Gwener ola'r mis.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
mentercaerdydd.cymru/menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch:
post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.



# Colofn G.R.



## *Canmoliaeth eto!*

Y mis diwethaf bues i'n canmol gwaith y cyflwynwyr ar Radio Cymru ac S4C wrth iddyn nhw gynnal oriau o sylwebu ar ganlyniadau'r Etholiad. Wel y mis yma dyma ganmol gwaith Tristan Ellis-Morris a Heledd Cynwal wrth iddyn nhw gyflwyno cystadleuwyr Eisteddfod amgen Mudiad yr Urdd o stiwdio S4C yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog mewn modd mor gartrefol ond proffesiynol. Cafwyd chwip o Eisteddfod a daeth dwy brif wobr i Gaerdydd pan enillwyd Medal y Dysgwyr gan Phoebe Skinner o Ysgol Uwchradd Caerdydd a'r Fedal Ddrama gan Rhiannon Lloyd Williams. Ar ben hynny bu nifer eraill o bobl ifanc Caerdydd a'r Fro yn llwyddiannus ac felly llongyfarchiadau i bawb!

Yn ddiweddar enillodd yr actores Rakie Ayola o Gaerdydd Wobr BAFTA mewn cyfarfod gwobrwyo yn y Ganolfan Deledu yng Ngorllewin Llundain. Mae hi'n dysgu Cymraeg ers peth amser rŵan ac ychydig amser yn ôl ymddangosodd ar y gyfres *Yr Iaith ar Daith* ar S4C a chwarae teg iddi am ddweud ychydig o frawddegau yn Gymraeg wrth dderbyn ei gwobr! Da iawn Rakie!

Mae tri pharc Cenedlaethol yng Nghymru sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ond rŵan mae 'na ymgyrch ar droed i sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol a hynny ym Mryniau Clwyd. Ond nid ydy pawb yn cytuno â'r bwriad gan ddadlau bydd Cymru yn beryg o droi yn chwaraele gwyliau os nad ydym ni'n ofalus a bydd gormod o bobl yn dylifo i'n parciau. Eisoes mae problem ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Yn ddiweddar hefyd dynodwyd Pistyll Rhaeadr yn Llanrhaeadr ym Mhowys yn un o Saith Rhyfeddod Prydain yn ogystal â bod yn un o Saith Rhyfeddod Cymru. Tybed faint ohonoch sy'n gallu enwi'r chwe rhyfeddod arall yng Nghymru? Dyma nhw rhag ofn eich bod yn methu ateb y cwestiwn! - Pont Llangollen, Clychau Gresffordd, Ywen Owrtyn, Clochdy Wrecsam, yr Wyddfa, a Ffynnon Wenffrewi - a'r cwbl yn y Gogledd!

Newyddion drwg o safbwynt addysg Gymraeg ydy deall bwriad Cyngor Gwynedd i gau ysgol bentre' Abersoch ym Mhenrhyn Llŷn ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd prinder disgyblion ond y newyddion da ydy clywed am fwriad Cyngor Sir Powys i ddynodi Ysgol Uwchradd Bro Hyddgen ym Machynlleth yn Ysgol Gyfun Gymraeg yn raddol dros y blynyddoedd nesa. Mae gwir angen ysgol gyfun Gymraeg arall o fewn y Sir ond y broblem ydy ble i'w lleoli gan fod y boblogaeth mor wasgaredig a'r sir mor fawr.

Mae problem y tai haf a'r tai gwyliau a'r diffyg cartrefi fforddiadwy i bobl yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig a hardd yn y De Orllewin a'r Gogledd Orllewin yn dal yn bwnc llosg er bod llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa. Diwedd y rhyfel diwethaf oherwydd y diffyg tai codwyd cannoedd o *pre-fabs* a hynny'n gyflym ac felly pam na ellid mabwysiadu'r cynllun hwn ar gyfer y presennol a chodi tai parod tebyg lle bo angen? Mae enghraifft o'r tai *pre-fab* i'w weld yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan.

Y mis hwn ar yr 28 o Orffennaf bob blwyddyn dethlir Gŵyl y Glaniad ym Mhatagonia i goffau glanio'r Cymry yno nôl yn 1865. Cynhelir seremonïau ymhob rhan o dalaith Chubut a gwelir Baner Cymru yn cyhwfan ochr yn ochr â Baner yr Ariannin a bydd y Cymry yn cynnal digwyddiadau megis te yn y capeli neu noson lawen ac ati yn ystod y dydd i ddathlu'r achlysur.

Yma yng Nghymru hefyd mae Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dathlu'r achlysur ond oherwydd yr haint bu hyn yn amhosibl ers dechrau'r cloi. Bydd y Wladfa Gymreig yn 156 oed eleni a braf ydy cyhoeddi bod yr iaith Gymraeg yn dal yn fyw iawn yno er gwaethaf popeth.

Eleni mae Mudiad Meithrin yn dathlu ei hanner cant. Fe'i sefydlwyd nôl ym 1991 mewn cyfarfod cenedlaethol yng Nghanolfan yr Urdd yn Aberystwyth ar yr 25 o Fedi a daeth Emyr Jenkins o Riwbeina yn Gadeirydd Cenedlaethol a Bethan Roberts hefyd o Riwbeina ar y pryd yn Ysgrifennydd Cenedlaethol. Dros y blynyddoedd mae'r Mudiad wedi tyfu'n aruthrol ac wedi cyflawni cymaint i sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r Gymraeg. Hir oes i waith y Mudiad holl bwysig hwn a phen-blwydd hapus! Daw tro'r Urdd i ddathlu ei chanfed y flwyddyn nesa!

Tan fis Medi cadwch yn saff a siriol a mwynhewch yr haf gartre yng Nghymru!


**Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd***

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL,** 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth

**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn Natur

## *Parc Cenedlaethol Newydd i Gymru ?*

**Gethin Jenkins-Jones**



Yn dilyn tair blynedd i ffwrdd ym mhrifysgol Caerwysg, rydw i wedi joio llawer o bethau ers i mi ddychwelyd i Gaerdydd. Mae'r cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd, yr amryw o waith cadwraeth, ac (wrth gwrs!) y fraint o allu ysgrifennu i'r papur bro yma wedi gwneud y misoedd diwethaf yn hwyliog iawn. Ond uchafbwynt y flwyddyn oedd cael fy nerbyn i dreulio ail hanner 2021 yng ngwarchodfa Spurn yn Efrog fel warden cynorthwyol. Ni fyddaf yn medru ymweld â llefydd newydd Caerdydd nac ysgrifennu amdanynt am sbel, felly o hyn ymlaen bydd fy erthyglau yn ffocysu ar bynciau amryw megis newyddion cadwraeth Prydain, hanes natur y wlad ac adolygiadau llyfrau natur. I ddechrau'r gyfres newydd hon o erthyglau, rydw i wedi dewis i rannu fy marn ar rywbeth sydd wedi denu sylw'r wasg yn ddiweddar - y penderfyniad posib i ddyrchafu Bryniau Clwyd a dyffryn yr afon Dyfrdwy yng ngogledd Cymru yn barc cenedlaethol.

Fel unigolyn sy'n angerddol iawn am fyd natur, dylai'r posibilrwydd o gael parc cenedlaethol arall fy mhlesio yn fawr. Ar y cyfan, bydd poblogaeth gynyddol Cymru ond yn achosi galw uwch o'n tir dros y degawdau nesaf, felly mae rhoi ddeddfwriaethau gwarchod at ragor o lefydd yn sicr o fod yn beth da. Ond mae'r sefyllfa yn un gymhleth. I fod yn gryno, rydw i o blaid y cynllun, ond byddaf yn llai cefnogol os dewisir i drin Clwyd a Dyfrdwy yn yr un ffordd a'n parciau presennol.

Mae gan Gymru dri pharc cenedlaethol - Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri - ac maent yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn arwynebol mae mynyddoedd y parciau yn drawiadol, eu siapiau anhygoel yn ddyledus i drai a llif y rhewlifoedd mawreddog sydd wedi siapio tirwedd ein gwlad ers dechrau Oes yr Iâ. Yn sicr, fel plentyn roeddwn yn eu gweld fel llefydd deniadol, ac roedd eu statws fel parciau cenedlaethol yn rhoi cysur i mi eu bod yn llefydd a oedd yn gwarchod bywyd gwyllt. Yn anffodus, ar ôl blynyddoedd o astudio ym maes ecoleg a darllen amdano, sylweddolais nad ydy hyn yn wir o gwbl. Mewn gwirionedd, mae rhan helaeth o dir ein parciau yn ddiffaith, ac wedi bod am ddegawdau. Yn wahanol i nifer fawr o barciau cenedlaethol eraill y byd, nid yw ein parciau cenedlaethol yn cael eu gofalu er lles natur - ond ar gyfer ffermydd mawr da byw. Mae cael miloedd o ddefaid yn pori ar ein parciau yn atal planhigion a choed rhag tyfu, ac yn caniatáu i ddim ond glaswellt i ddiffinio'r topograffi. Mae'r sefyllfa yn rhannau helaeth o Glwyd a'r Ddyfrdwy yn un tebyg. Mae ein mynyddoedd yn sgerbydau.

Gan ei fod yn cynrychioli 88% o arwyneb Cymru, byddwch yn meddwl bod ffermio da byw yn rhan hollbwysig i iechyd economi'r wlad, ac y byddai unrhyw newid i drin y tir mewn ffordd sy'n blaenoriaethu byd natur yn arwain at golledion a rhagor o dlodi ymysg cymunedau gwladol. Nid ydy hyn yn wir o gwbl. Mae'r diwydiant yma ond yn cyfrannu 1% at economi Cymru, ac ond 2% o boblogaeth y wlad sy'n gweithio ynddo. Yn waeth fyth, byddai'r rhan fwyaf o ffermydd yn gwneud colled heb gymorthdaliadau'r llywodraeth, sydd yn y pen draw yn dod o bocedi trethdalwyr. Am wastraff. Ond y newyddion da yw bod hi'n bosib rheoli Clwyd mewn ffordd a fydd yn gwella natur yr ardal yn ogystal â'r cymunedau lleol.

Mae ecotwrisiaeth wedi denu sylw yn ddiweddar fel un o ddiwydiannau mawr y dyfodol. Mae gweld eryrod ar ynys anghysbell Mull, er enghraifft, yn cyfrannu £5 miliwn i economi'r ynys pob blwyddyn. Os byddai'r llywodraeth yn talu ffermwyr Clwyd i ganiatáu ailgyflwyno anifeiliaid coll i'w tir (fel eryrod, afancod a lyncs) yn ogystal â'u talu i drin eu tir er lles natur ac i leihau niferoedd y da byw, byddai modd creu ardal enfawr o gynefin gwyllt a fydd yn denu miloedd yn fwy o ymwelwyr i'r ardal. Byddai hyn wedyn yn arwain at fwy o swyddi lleol, oherwydd byddai angen gwestai, bwytai a thywyswyr teithiau yn yr ardal. Rydw i'n synnu nad ydy hyn eisoes yn digwydd. Byddai creu parc cenedlaethol o'r fath yn helpu creu'r sicrwydd cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n angenrheidiol os ydy dyfodol Cymru am fod yn un braf a sefydlog.



*Moel Famau Dyffryn Clwyd*

## Taith Seiclo fel Teyrnged i Sion Mullane

Mae'n flwyddyn ers i ni golli ein ffrind Sion. Yr ydym yn benderfynol y bydd ei ysbryd yn parhau i ysbrydoli a herio eraill i wireddu eu breuddwydion a'u potensial, fel y gwnaeth e.

Dyna'r meddylfryd arweiniodd at sefydlu Ymddiriedolaeth Sion Mullane, i gefnogi ac ysbrydoli pobol ifanc Cymru, i gynnig cymorth ariannol lle bo angen a mentoriaid.

Roedd Sion yn uchelgeisiol a llawn asbri a brwdfrydedd, nid lleia' yn ei ymdrechion codi arian dros elusennau. Yn 2015 fe redodd ultramarathon heb fawr o ragbaratoi. Pan holwyd e am ei ddewis, ei ateb oedd "Pam lai?".

Fe benderfynon ni, chwech o'i ffrindiau, i seiclo o Fôn i Gaerdydd i godi arian i'r Ymddiriedolaeth. Doedden ni ddim yn seiclwyr. *All the gear, no idea* yn dweud y cyfan amdanom! Ond yng ngeiriau Sion "Pam lai?".



Daethom ynghyd ym Môn o nifer o gyfeiriadau gwahanol. Sam Robic yn dod o Baris, Owen, Jack a Jamie o Lunden a Rhun a finne o Gaerdydd. Ond roedd ein cyfeillgarwch bore oes gyda Sion yn ein clymu yn griw clos.

Ni bu y trefniadau heb eu trafferthion. Ni chai Sam ddod â'i feic o Baris! S.O.S i gyfaill arall, Owain Doull, a benthyg beic ymarfer (posh iawn!) ganddo fe. Sut oedd cludo'r beics i Fôn? Dyma Glwb y Sgarlets yn cynnig benthyg fan i ni. Beth am git addas? Beth pe baem yn dihydradu? Yn cael pynctiyr? Daeth noddwyr hael i ateb pob un o'r gofidiau hyn ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw un ac oll.

Fe ddechreuodd ein taith ar nos Fercher yn Llangaffo, pentre' sy â chysylltiadau agos gyda theulu Sion. Mlaen i Gaernarfon ac ail gychwyn fore Iau a dilyn Llwybr Lôn Las Cymru wedyn drwy gefn gwlad ogoneddus a heibio golygfeydd gwych. Dim amser i oedi ac edmygu dim. Rhaid oedd bod ym Machynlleth cyn nos. Taith heriol a dweud y lleia'! Coesau blinedig a phenole tost rowliodd i mewn i Fachynlleth chwap ar ôl amser te dydd Iau.

Ben bore wedyn, bant â ni eto gan anelu am Aberhonddu i roi ein pennau lawr nos Wener. Diolch i haelioni Coleg Crist, roedd cawodydd poeth a gwelyau cysurus yn ein haros yno. Ond a dweud y gwir, byddem wedi cysgu yn hongian ar lein ddillad!

Bore Sadwrn, lawr yr allt (wel fwy neu lai) yr holl ffordd i Gaerdydd ar hyd llwybr y Taf. Fel y dynesem at y brifddinas ymunodd mwy a mwy o gydnabod a theulu Sion gyda ni nes bod torf go lew yng Nghaeau Pontcanna i ddathlu diwedd ein taith epig. Byddai Sion wedi bod wrth ei fodd!

Os hoffech gyfrannu at yr achos teilwng hwn, mae linc ar fy nhudalen Instagram @patchell10.

*Rhys Patchell*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth rhifyn Gwanwyn 2021 o'r cylchgrawn *Advances* i'm cartref yn ddiweddar. Pob clod i Lywodraeth Cymru am ddarparu'r arlwy dwyieithog a lliwgar hwn o newyddion am ymchwil a datblygiadau gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg mewn sefydliadau ar draws Cymru, yn brifysgolion a diwydiannau. Mae'r diwyg yn ddeniadol a'r cyfraniadau yn cynnwys digon i godi blas heb orlwytho, gyda manylion cyswllt i ddarllenwyr sydd am wybod mwy. Mae'r cyfan ar-lein neu mewn copi caled, yn rhad ac am ddim. Ewch a phrofwch. Ymhlith y cyfraniadau y tro hwn ceir cyfeiriad at ddadwneud niwed methiant y galon, gwella effeithlonrwydd ynni wrth gynhyrchu sment, a chynnydd wrth ddatblygu ceirch iach sy'n gwrthsefyll yr hinsawdd.

Da deall bod cynlluniau ar y gweill i gynnal Yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhithiol fel y llynedd a bod darpariaeth y Babell Wyddoniaeth yn eu plith, dan ofal Elin Rhys. Deallaf fod y ddarpariaeth yn cynnwys eitemau i gydnabod 'cewri' gwyddoniaeth Cymru a gollwyd o'n plith yn y flwyddyn, yn nodedig Syr John Meurig Thomas a'r Athro Glyn O. Phillips.

Ers blynyddoedd rwyf wedi bod yn argyhoeddedig bod elfen o annibendod yn iachus wrth ystyried silffoedd llyfrau; o'i dacluso daw ambell drysor coll i'r golwg. Dyna fu fy hanes yn ddiweddar wrth geisio chwynnu rhifynnau *Physics World*, cylchgrawn misol y Sefydliad Ffiseg (Institute of Physics); rhifynnau'r flwyddyn 2019 a ddenodd fy sylw. Roedd rhifyn Ebrill yn cynnwys teyrnged i'r ffisegydd Zhores Alferov, arloeswr laser; enillodd Wobr Nobel am ei waith. Yn rhifyn Mehefin ceir llythyr gan Yr Athro Alan Shore, Prifysgol Bangor, yntau yn arbenigwr yn yr un maes. Yn y llythyr mae Alan Shore yn dwyn i gof fod Dr Ben Thomas (Caerdydd) wedi arloesi yn y maes newydd a'i fod wedi gweithio gydag Alferov yn Leningrad. Sonnir bod Alferov yn ddiweddarach wedi ymweld â Dr Thomas yng Nghaerdydd, gan fynegi awydd i nofio yn y môr; trefnwyd ymweliad i Benarth.

Bydd aelodau ein Cymdeithas yn cofio'n annwyl a diolchgar am Ben, a gollwyd o'n plith yn rhy gynnar o lawer. Bu'n ddiwyd iawn ei wasanaeth yn yr ymdrechion i sefydlu a sefydlogi ein Cymdeithas ac achos ehangach y defnydd o'r Gymraeg mewn gwyddoniaeth. Tybed a oes rhywun yn dal cysylltiad gyda theulu Ben? Eglwys Dewi Sant efallai? Byddwn yn hapus i drosglwyddo llythyr Alan Shore i'w gofal.

*Neville Evans*
*07913 257371*

# Bwyd Merch y Ddinas



## *Byrbryd Haf*

### Lowri Haf Cooke

Un newid mawr wnes i dros fisoedd y gwanwyn oedd dechrau seiclo o amgylch y ddinas. Ac wrth groesi morglawdd Bae Caerdydd i farina Penarth, gallaf hawlio i mi hefyd seiclo mymryn o Fro Morgannwg! Sôn am rodd i mi fy hun mewn cyfnod digon od, a chyfle pellach i ehangu gorwelion fy milltir sgwâr. Dwi'n cofio torri fy mhenelin cyn sgwennu *Canllaw Bach Caerdydd*, wnaeth olygu na ches i yrru am dri mis. Rhodd oedd hynny hefyd mewn ffordd, wrth ail-ddarganfod y ddinas ar ddwy droed. A rhyw brofiad digon tebyg yw cael ymlwybro'r ddinas ar ddwy olwyn, wrth ganfod persbectif newydd y tu hwnt i'r llwybrau cyfarwydd.




Goeliwch chi mai dyma'r cyfle cyntaf erioed i mi ymlwybro trwy wlypdiroedd y Bae, Parc Hamadrayad a Llwybr Taf? Maddeuwch i mi os yw'r mannau hyn eisoes yn hen gyfarwydd i chi - mae gen i ofn mod i wedi troi'n dipyn o bôr ar gefn beic! Ond un fantais fawr am gael dull newydd o gadw'n heini yw medru cwrdd â ffrindiau'n hwylus am gacen a choffi. Ymysg fy hoff gyrchfannau newydd ar gefn beic, felly? Becws chwaethus Ground, Stryd Pontcanna, am goffi a bynsen gardamom - hen ffefryn ond danteithyn prin yng Nghaerdydd, sy'n dwyn atgofion o 'nheithiau i'r gwledydd Llychlynnaidd.




Pleser hefyd oedd darganfod brownies Alana Spencer o Aberystwyth, yn ei chaffi Ridiculously Rich yng Nghei'r Fôr-forwyn, lle safodd bwyty hyfryd Mimosa 'slawer dydd. Byddwch chi Gardis yn gyfarwydd ag enw cyn-enillydd *The Apprentice* ar BBC1, yn sgil llwyddiant y gangen wreiddiol ar Draeth y De. Yn wir, mae lliwiau pastel y caffi newydd yn fy atgoffa o South Beach, Miami. Mynnwch flas bach am ddim o'r toes cwcis tu ôl i'r cownter, a gwnewch apwyntiad gyda'ch deintydd wedi hynny! Melys moes mwy.

Ond efallai mai'r atyniad newydd sbon i'm cyffroi yn fwy na'r un yw becws Tŷ Melin yn Bayscape, dafliad carreg o Bont y Werin lawr y Bae. Bu'r pobyddion Angharad Conway a Lance Gardner yn arwyr i nifer yn ystod sawl clo mawr, wrth gludo danteithion ffres i gartrefi dinesig o'u popty ar ystâd ddiwydiannol Mahilad. Hyd heddiw gallwch brynu eu pestris o gaffis a delis fel y Penylan Pantry, ond ers diwedd mis Mehefin mae modd gwledda ar eu *Croissant Bombs* anfarwol ger y marina ar lan yr Afon Elai. Cymerwch gyngor gen i, trefnwch ymweliad toc ar ôl deuddeg ar ddydd Gwener; dyna pryd gyrhaeddodd y Croissant Bombs caramel hallt o gyrion y Fenni – erbyn 1 roeddent wedi hen diflannu!

Er cymaint yr hoffwn ddweud i mi fentro ymhellach ar gefn fy meic, celwydd noeth fyddai hynny. Rwy'n tyngu llw yma felly i grwydro ymhellach na Phont y Werin dros fisoedd yr haf. Oherwydd dros fisoedd y gwanwyn ges i sawl agoriad llygad - ac amryw wledd i'r stumog! - ym Mro Morgannwg. Dwi ar dân i ddychwelyd i'r Bontfaen, er enghraifft, i 'mofyn brechdan gig eidion a marchruddygl o fecws yr Hare and Hounds. Sawrais y fendigaid-frechdan honno tra ar dramp ar hyd yr arfordir, a bûm yn breuddwydio am ail-fyw'r profiad fyth ers hynny. Braf iawn hefyd oedd croesi cerrig cam Cwm George yn Ninas Powys - dwi'n credu bydd rhaid trefnu trip i fwyty'r Humble Onion ar fyrder i gael ail-brofi'r wefr honno. Ond i'r Barri yr es i yn syth wedi hynny, am ddip yn yr Hafren ym mae Jackson. Waw! Am le braf. Shhhhh... peidiwch â dweud wrth bawb!

A thra yn yr ardal, ces ymweliad ag atyniad ffantastig y Goodsheds, sy'n gyfuniad o siopau, bariau a bwytai annibynnol, ynghyd â sawl gofod llety a gwaith. Ges i groeso Cymraeg ym mar coctel Academy 297 ar noson hynod stormus 'nol ym mis Tachwedd. Ond profiad pur wahanol oedd ymweld â'r ganolfan hon ddechrau'r haf - sôn am gaffaeliad i'r Barri, ac am brofiad braf.

Diolch i Elen Elias am ei chroeso'r prynhawn hwnnw ar fy ymweliad cyntaf â siop y Good Wash Company, sydd wrth galon y datblygiad hwn. Mae'r cwmni cynnyrch golchi dwyieithog yn chwaethus tu hwnt, a'u diheintydd 'Glân' i'w weld ym mhobman y dyddie 'ma. Difyr hefyd oedd galw yn siop cerameg y Cymro Cymraeg Matthew Jones. Yn wreiddiol o Gaerffili (ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Cwm Rhymni) mae ei lestri i'w gweld ar fyrddau bwytai ledled Caerdydd, gan gynnwys Social East yn Cathays, a bwyty canolog Pasture Cardiff.



Gallwn yn hawdd fod wedi eistedd yn yr haul i fwyta *souvlaki* o gaban Meet N Greek. Ond i fynd adref gyda mi, bachais doesyn blas llus o Friends in Knead, cyn profi blas o fwydlen The Shed gan James Sommerin. Tamaid i aros pryd a dweud y gwir - cwrs cyntaf o gawl cimwch, gyda glased o win rhosliw o'r Languedoc - gan y bydda i'n siŵr o ddychwelyd cyn hir. Mae'n fwyty hamddenol, ag awyrgylch ymlaciol, gyda bwydlen llai uchelgeisiol na'r bwyty oedd ganddo tan yn ddiweddar ger Pier Penarth. A dweud y gwir, mae'r cogydd gwobrwyol a'i ferch Georgia (is-gogydd, neu sous-chef, ei thad) ar fin agor bwyty Home ym Mhenarth (lle bu bwyty Etc). Mae eu bryd ar ennill dwy seren Michelin gyda Home, ond The Shed yw chwaer fach eu gweledigaeth fawr - y math o le y byddai'r teulu yn hoffi ymlacio ar eu diwrnod i ffwrdd. Wel sôn am ymlacio, yn llygad yr haul; roedd y *bisque* yn hynod flasus a'r rose yn berffaith hafaidd. Ie, byrbryd bendigedig yn y Barri! Mwynhewch eich gwyliau haf x

The Shed by James Sommerin, Goodsheds, Y Barri CF62 5QU; 01446 737458

# Merched y Wawr Y Felin

Cawsom fwynhau cyfraniadau tair aelod o'r gangen yn y cyfarfod Zoom olaf hwn am y tymor. Ein Brethyn Cartref.



"Pwyso ar y Giât" sef hunangofiant y diweddar Aled Lloyd Davies, y person diymhongar ac amryddawn hwn a roddodd oes o wasanaeth i'w fro ac i Gymru gyfan, oedd pwnc Carys Tudor. Cafodd Carys y fraint a'r pleser aruthrol o gyd-weithio ag e yn ysgol Maes Garmon Sir y Fflint ac roedd ganddi stôr o storïau difyr i'w dweud am ei weledigaeth. Bydd rhaglen goffa iddo yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Roedd ei brwdfrydedd yn heintus ac rwy'n sicr bydd nifer ohonom am ddarllen ei lyfr wedi gwrando arni.



Bu Catherine Jobbins a'i gŵr yn dysgu yn y Zambia am gyfnod wedi iddynt briodi yn y 60au. Dau drysor cysylltiedig â'r cyfnod hwnnw oedd gan Cath i ddangos i ni. Llun o gopr oedd y cyntaf a blas y tir ynddo. Masg a gerfiwyd gan un o'r llwythi a roddodd yr enw gwreiddiol Mosi-oa-Tunya (y mwg sy'n taranu) i'r rhaeadr enfawr y Victoria Falls oedd y llall. Mae'r rhain yn awr yn eu hatgoffa'n fawr o'r profiadau diddorol a difyr a gawson nhw yno yn y Copperbelt ac fe gawson ninnau rannu'r atgofion hynny.



Wedyn daeth Glenys Evans i adrodd, yn ei dull dihafal ei hun, storïau rhyfeddol o ddoniol am Anti Blodwen o Ferndale. Doedd neb tebyg i hon yn y teulu. Gwahanol a hyderus a heb fod yn ofni dweud ei dweud a gwneud ei gwneud beth bynnag oedd barn eraill yn ei hoes. Wrth i Glenys adrodd hanes y digwyddiadau yn ei bywyd, bu llawer o chwerthin. Torrodd ei chwys ei hun yn Llundain gyda'i ffrind gore Neli, gan orffen ei dyddiau yn Llandaf.

Roedd awyrgylch gynnes, agos yn ein cyfarfod ac ry'n ni'n ddiolchgar iddynt am fod mor barod i rannu eu profiadau mewn modd mor hawddgar a hwylus.

Rydyn ni'n mawr obeithio fel cangen y byddwn yn medru cwrdd wyneb yn wyneb gyda'n gilydd yn y neuadd yn yr hydref. Pwy a ŵyr? Cawn weld. Wrth edrych yn ôl, gallwn ddweud ein bod wedi mwynhau nosweithiau amrywiol ac arbennig iawn a braf oedd gweld nifer dda o aelodau yn troi mewn atom i rannu'r wledd fisol.

Rydym yn gobeithio cwrdd am bicnic mewn parc yn yr awyr agored ym mis Gorffennaf. Edrychwch mas am y manylion.

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Eiry Davies 07855 666242 eiry.davies@hotmail.co.uk*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Llongyfarchiadau enfawr i'n holl ieuenctid sydd wedi derbyn graddau rhagorol yn eu harholiadau eleni yn dilyn blwyddyn addysgol anodd. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Mae'r cyfarfodydd 'Myfyrdod', o dan ofal y Gweinidog, yn parhau bob nos Fercher ac mae'r aelodau yn cael budd mawr ohonynt.

Cynhaliwyd Te Pnawn, o dan nawdd Y Gymdeithas, yn y New House a braf oedd gweld wynebau a chael cyfarch ein gilydd unwaith eto. Cafwyd te blasus a digonedd o fwyd. Diolch i Emyr Roberts a Catrin Harker am eitemau cerddorol hyfryd ac i Cerian Angharad am drefnu'r cyfan.

Yn anffodus, oherwydd yr amgylchiadau, ni fydd yn bosib ymuno â'r gwasanaethau gydag Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ystod mis Awst. Cynhelir Gwasanaeth Cymun yn Y Crwys ar Awst 4ydd yng ngofal y Parchg Evan Morgan. Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno ymuno â ni yn y capel gofrestru trwy gysylltu â Mr Bob Roberts, yr Ysgrifennydd. Bydd hwn yn wasanaeth rhithiol yn ogystal.

Er na fu y rhan fwyaf ohonom yn gallu trafaelio ymhell, dymunwn haf braf ac hamddenol i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau mawr i Calan a Malcolm McGreevy oedd yn dathlu eu priodas aur ym mis Mai. Mae'n braf clywed bod y teulu cyfan wedi gallu dod ynghyd i ddathlu'r achlysur.

Rhannwn lawenydd Mari Rogers wrth iddi groesawu aelod newydd i'r teulu, sef ei gor-ŵyr cynta', Gruffydd Ryall, mab i'w hwyres Megs a Simon. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu ym Mlaenllechau yn y Rhondda Fach.

Llongyfarchiadau i Caleb Griffiths am ennill nid un, ond dwy fedal aur am godi pwysau - un ym mhencampwriaeth Cymru a'r llall ym mhencampwriaeth Prydain Fawr.

Llongyfarchiadau hefyd i Hannah a Mia am ddod yn gyntaf ym mharti unsain Ysgol Plasmawr yn yr Eisteddfod.

Fe gynhaliwyd gwasanaethau bob bore Sul drwy gyfrwng Zoom. Diolch i'r saith o aelodau yn ystod mis Mehefin a drefnodd y gwasanaethau. Mawr yw'n dyled hefyd i Denzil John, Owain Llyr Evans a Dyfrig Lloyd am eu parodrwydd i'n harwain yn y cyrddau nos Sul. Ar drydedd nos Sul Mehefin, cafwyd Oedfa Dydd Gweddi'r Byd a hynny yng ngofal Chwiorydd y Tabernacl. Ychwanegwyd at naws y gwasanaeth oherwydd roedd pawb yn y gynulleidfa yn cael cyd-ganu'r emynau unwaith eto.

Ar ddiwedd y mis daeth aelodau'r Clwb Darllen at ei gilydd. Y llyfr gafodd ei drafod y tro hyn oedd 'Rhwng y Silffoedd' gan Andrew Green.

O'r diwedd daeth y newyddion da fod Cyngor Caerdydd wedi cytuno i'n cais i ymgartrefu teulu o ffoaduriaid o Syria yng Nghaerdydd. Mae'r cais bellach wedi ei anfon ymlaen i'r Swyddfa Gartref. Ein tasg nawr yw chwilio am dŷ addas i'w rentu yn ardal Trebiwt. Bydd angen dodrefnu'r tŷ a'i baratoi. Pan fydd y sefyllfa yn gliriach byddwn yn chwilio am bob math o nwyddau a dodrefn i'r cartref. Cysylltwch â Ruth Davies (Ffôn 02922 211407 neu e-bost: billd.d2@tiscali.co.uk) os oes gennych nwyddau y gallwch gyfrannu.




## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon Gorffennaf (am 10:30 a.m. yn y capel):**

4 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 – Parchedig Ifan Roberts
18 – Rhodri Jones
25 - Parchedig Lona Roberts

(Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau wedi'r haf.)

**Awst (Oedfaon am yn ail â'r Tabernacl, Efail Isaf):**

1, 15, 29 Awst - Efail Isaf
8, 22 Awst - Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Mi gredaf i fod Angharad Tomos, mam Rala Rwdins, wedi bod yn cloddio yn ardal Castell Penrhyn, ac wedi darganfod memrwn a allai berthyn i sgroliau'r Môr Marw!

Ac os nad ydio, yna mi ddylai fod!

*"…Peth arall mae'r Dyn Gwyn yn ei wneud ydi rhannu llefydd. Mae o'n gwneud llun o'r tiroedd sydd ganddo, yn ei osod mewn sgwariau ar ddarnau o bapur, ac mae hynny'n peri iddo feddwl mai fo pia nhw... Boed o'n diroedd, neu ddillad, amser neu arian, tai, da byw neu bobl… Dim felly oedd ein ffordd ni yn y Wlad Cyn Cof. Y gymuned oedd pia'r tir, a hynny dim ond dros dro. Roedd y tir yno erioed, a'r daioni a ddeuai ohono. Roedd yno cyn ein geni, a byddai yno'n hir wedi inni ymadael. Peth parhaol yw tir, pethau dros dro yw pobl. Yn y cyfamser, ein cyfrifoldeb ni yw meithrin y tir a'i warchod…*

*Rhoi mae'r tir, rhoi o'i faeth inni drigolion Daear…*

*…Pan ddaw ein rhawd i ben, rhoddir ein gweddillion yn ôl yn y tir. Beth yw'r tir ond daear sy'n gwarchod ysbryd ein cyndeidiau…*

*Rydan ni yn byw mewn cytgord efo'r ddaear, a thrin pethau fel y mae'n cyndadau wedi'i wneud erioed. Gawson ni ddarn o dir i fyw arno, ac anifeiliaid i ofalu amdanynt, ac mae'r Ddaear yn rhoi ffrwythau a llysiau inni a glaw a haul. Ac roedd bob dim yn iawn…"*

[Dyfyniadau o'r gyfrol *Y Castell Siwgr* gan Angharad Tomos]

## BETHEL, PENARTH

Bu Rob Waite yn yr ysbyty am rai dyddiau yn ddiweddar. Da deall ei fod wedi dychwelyd i'w gartref, gan fodloni'n ddedwydd ar 'drefn' Gwyneth ei wraig. Anfonwn ein meddyliau cynnes at y ddau.

Och a gwae! Sachliain a lludw! Daeth newyddion bod Nêst a'i theulu yn gadael yr ardal i fyw yn y Gogledd. Mae Nêst wedi bod yn aelod ffyddlon o Gyngor Bethel ers rhai blynyddoedd, gan gario cyfrifoldeb dros faterion yr Ysgol Sul. Diolch hefyd i'r plant am eu cyfraniadau. Gyda diolch mawr dymunwn y gorau iddynt oll. Ond, nid yw'r hanes yn ddu i gyd. Deallwn mai am gyfnod bydd y pellhau. Brysied dydd y dychwelyd.

Yn rhifyn mis Mehefin *Y Dinesydd* (a luniwyd ym mis Mai) ceir nodyn yn cyfeirio at fenter oedd i ddigwydd a'r disgwyl mawr oedd ym Methel. Daeth y nodyn canlynol oddiwrth Emma.

Ar Ddydd Iau y trydydd o Fehefin wnaeth y teulu Jones, sef, Nefydd, Sandra, Betsan a Llinos wynebu Her y Wifren Wib er budd Achub y Plant. Fe wnaethant ymuno gyda chriw o wirfoddolwyr eraill o bob cwr o Gymru ym Mharc Antur Zip World ym Methesda, Gwynedd er mwyn gwibio ar gyflymder o 100 milltir yr awr dros hen chwarel lechi Y Penrhyn. Trwy eu mentergarwch fe lwyddon nhw i godi £2172.52 ar gyfer gwaith yr elusen, gan helpu plant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig. Yn ogystal, bu Betsan a Llinos ar y rhaglen deledu Heno yn siarad am y profiad. Diolch mawr iddynt am eu hymdrechion. Ar ddiwedd y sialens fe godwyd cyfanswm o £13738 gan y grŵp cyfan o wirfoddolwyr.

Diolch i Emma sy'n weithgar gyda'r elusen ac yn ffrind da i'r pedwar.

Ar Sul cyntaf Gorffennaf (4ydd) bydd digwyddiad arbennig yng nghartref y teulu Jones, sef, oedfa o ddiolch ganddynt yn nodi eu gwerthfawrogiad o gefnogaeth cyfeillion Bethel ar eu taith sydyn. Hyfryd!

Fore Llun Mehefin 21ain cynhaliwyd sesiwn siarad am 'hoff ddeunydd darllen'. Dyma'r gyntaf mewn cyfres o bedair gyda'r bwriad o rannu ysgafn, heb agenda na phwysau paratoi. Jyst joio cwmni.

Ar ail Sul Gorffennaf (11eg) byddwn yn ymuno gydag eglwysi (annibynwyr) Cyfundeb Dwyrain



*Y teulu Jones*

Morgannwg mewn gwasanaeth rhithiol trwy Zoom i ddechrau am 09.45. Bydd y gwasanaeth yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr dan ofal Y Parchedig Dylan Rhys Parry, gweinidog newydd Yr Ofalaeth newydd, leol (Porthcawl a Phen-y-bont.

## EGLWYS DEWI SANT

**Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd**

Cynhelir dau wasanaeth trwy bodlediad, un yn y bore ac un gyda'r hwyr ar y Sul o hyd er bod gwasanaethau yn yr eglwys ei hun ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith a'r cyfraniadau a olyga ein bod yn derbyn y podlediadau gwerthfawr hyn.

Dyma drefn y gwasanaethau yn yr eglwys ar hyn o bryd :-

Dydd Sul cyntaf y mis - 10:30 y bore Y Cymun Bendigaid

Ail Sul y mis - 8:00 y bore Y Cymun Bendigaid; 6:00. yr hwyr Yr Hwyrol Weddi

Trydydd Sul y mis - 10:30 y bore Y Cymun Bendigaid

Pedwerydd Sul y mis - 10:30 y bore Boreol Weddi

Pan fo 5ed Sul yn y mis fel ag y mae yn Awst - 8:00 y bore Y Cymun Bendigaid; 6:00 yr hwyr Y Cymun Bendigaid

Noder: bydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig yn cyfarfod ddechrau mis Gorffennaf i adolygu trefn y gwasanaethau.

Wrth gwrs, mae'r cyfyngiadau, megis cadw pellter, gwisgo mwgwd yn yr eglwys, a'r gwaharddiad ar ganu cynulleidfaol mewn grym o hyd. Mae nifer y seddi sydd ar gael yn parhau'n gyfyngedig ac felly rhaid rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig am y bwriad i ddod i'r gwasanaeth.

**Coffi a Chlonc**

Bore Sadwrn, y 19eg o Fehefin, cafodd dysgwyr y Gymraeg gyfle unwaith eto i wrando ac i ymarfer eu Cymraeg tros y Zoom. Bydd y nesa fore Sadwrn y 18fed o fis Gorffennaf.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Rhodri a Kim yn Yr Iseldiroedd ar enedigaeth eu merch Emma Catherine, chwaer fach i Finn ac wyres i Stuart Owen Jones.

**Gwasanaeth Aml-oed**

Roedd yn braf cael bwrlwm y gwasanaeth aml-oed fore Sul 20fed. o Fehefin, gyda'r Ficer ynannerch ar y testun – 'Iesu yn gostegu'r storm'.

**Cynhadledd tros Zoom**

Ar yr 21ain o Fehefin, cynhaliwyd cynhadledd rithiol gan Oruchwylwyr Ffyddlon mewn eglwys sydd yn newid, i ystyried - gweinidogaeth a Chymreictod, strwythurau hierarchaidd yr Eglwys a'r angen dwys i feithrin mwy o alwedigaethau i weinidogaeth ordeiniedig Yr Eglwys yng Nghymru ymhlith y Cymry Cymraeg. Roedd yn gynhadledd fuddiol gyda phob un yn cael mynegi ei farn yn agored ac yn onest a daeth nifer o syniadau adeiladol i'r brig.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar Fehefin 18 hyfryd oedd gweld grŵp priodasol yn dod allan o Gapel Bethel wedi'r gwasanaeth a fu dan arweiniad y Parchg Evan Morgan. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i Bethan a Matthew.

Yn ystod y mis cawsom gyfle i gael paned a sgwrs ar lawnt y capel gan fod y tywydd wedi troi'n braf o'r diwedd. Roedd pob un yn falch i gwrdd ac i sgwrsio unwaith eto.

Bu cyfle ar Fehefin 13 i gael gwasanaeth dan arweiniad ein gweinidog yn yr awyr agored. Roedd yr haul yn grasboeth a daeth nifer dda ynghyd, llawer un wedi dod a het neu barasol.

Ar Sul ola'r mis cawsom wasanaeth unwaith eto dan arweiniad ein gweinidog, y tu fewn y tro hwn, a bu cyfle i ganu emynau ac i adrodd Gweddi'r Arglwydd am y tro cyntaf ers dros flwyddyn.

Cynhelir y gwasanaeth nesaf yn y capel ar Orffennaf 18 am 11 y bore. Ni chynhelir gwasanaethau yn ystod mis Awst yn y capel a bydd Zoom yn cael seibiant hefyd. Edrychwn ymlaen at ail-gychwyn gwasanaethau ym mis Medi.

## SALEM, TREGANNA

**Oedfaon a'r Ysgol Sul**

Rydym yn cynnal dwy oedfa ar foreau Sul - am 10.15am ar Zoom a hefyd am 11am yn y Capel. Croeso mawr i chi ymuno, a bydd angen cofrestru ymlaen llaw. Mae'r ysgol Sul bellach yn cyfarfod am yn ail Sul yn y festri am 11am ar gyfer oed cynradd ac uwchradd, ac yn rhithwir fel arall.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Mwynhaodd y bobl ifanc noson o fowlio deg ym mis Mehefin, noson hwyliog!

Llongyfarchiadau hefyd i gynifer o'n pobl ifanc a fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn Eisteddfod T dros y Sulgwyn. Roedd yn braf gweld cymaint o'ch wynebau ar S4C, yn rhan o grwpiau a chorau, ac fel unigolion. Rydym yn falch iawn ohonoch!

**Cydymdeimlo**

Trist iawn oedd colli Nesta Lewis yn ddiweddar, rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Shwna a'r teulu yn eu colled fawr.

## EBENESER

**Cnoi Cil**

Y mae'r gweinidog wedi paratoi dogfen drafod ar gyfer eglwys Ebeneser yn dwyn y teitl "Cnoi Cil." Dogfen i ysgogi trafodaeth yw hon i'n hannog fel eglwys i edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol gan osod blaenoriaethau a chynllun yn ei le. Y mae'r cloi sydd wedi digwydd yn sgil yr haint Cofid-19 wedi rhoi cyfle inni bwyllo ac i ystyried ein gwaith fel eglwys. Sut ddylem ni weithredu yn y dyfodol? Beth yw'r pethau pwysicaf i ganolbwyntio arnynt?

**Yr Ysgol Sul**

Testun llawenydd y Sul 13eg o Fehefin oedd bod criw o'r plant wedi dod at ei gilydd yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Dyma'r tro cyntaf i ni wneud hyn ers dros flwyddyn. Roedd hi mor braf eistedd ym mhelydrau haul llachar mewn cylch yng nghanol Llygad y Dydd ar lawnt CEN yn cael sbort. Bendith oedd cael clywed brwdfrydedd a chwerthin y plant a diolchwn i Dduw amdanynt. Diolch i Huw a Luned, Esyllt, Carys a Seren am helpu wrth gyflwyno hanes iachau'r gŵr cloff wrth Borth prydferth y Deml.

**Canu**

Pryd ddiwethaf ganodd cynulleidfa eich capel chi? Ni yn Ebeneser, wel, ddiwedd Mawrth y llynedd oherwydd cyfyngiadau Covid wrth gwrs. DIM MWY! Fore Sul, 20fed o Fehefin cawsom ein rhyddhau o'n rhwystredigaeth. Er bod pawb yn dal i orfod gwisgo mwgwd a chanu'n dawel roedd y llawenydd yn amlwg yn y mawl a'r harmoni.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r Dr Cynan Llwyd ar gael ei benodi yn Bennaeth yr elusen Tearfund yng Nghymru. Dymunwn bob bendith iddo yn ei waith. Bydd yn dechrau ar y swydd hon ym mis Gorffennaf.



## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon ac addoli**

Byddwn yn parhau i gydaddoli yn y capel ar fore Sul yn ystod mis Gorffennaf dan arweiniad ein gweinidog ac yn unol â chanllawiau a rheoliadau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol hefyd i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Byddwn yn ymuno yn rhithiol yn Sul Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, fore Sul 11 Gorffennaf.

Rydym yn siomedig na fydd modd i ni ailgydio yn yr arfer o gydaddoli ag aelodau eglwysi Cymraeg eraill y brifddinas ym mis Awst eleni oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Edrychwn ymlaen at groesawu nifer o gyfeillion sydd wedi cytuno'n garedig i arwain addoliad bore Sul yn y capel ar Suliau mis Awst.

Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon yn y capel. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul ar *Zoom.*

**Canu cynulleidfaol**

Bellach mae canu cynulleidfaol yn cael ei ganiatáu fel rhan o addoliad. Edrychwn ymlaen at allu gwneud hynny yn ddiogel.

**Prynhawn clonc a choffi**

Yn dilyn llwyddiant cyfarfod awyr agored yr Ysgol Sul ym mis Mehefin, bydd cyfle i deulu cyfan yr eglwys, o'r ieuengaf i'r hynaf, gwrdd am glonc a choffi brynhawn Sul, 11 Gorffennaf, ger *Caffi Castan*, Caeau Pontcanna.

**Y Gymdeithas**

Bu pwyllgor y Gymdeithas wrthi'n ddiwyd yn llunio rhaglen amrywiol ar gyfer misoedd yr hydref a'r gaeaf. Bydd manylion yn rhifyn mis Medi.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Molwch yr Arglwydd**.

Fel eglwys cawsom y fraint ar hyd y blynyddoedd o ganu rhai o emynau'r Parchg Dr Noel Gibbard. Ond yn ddiweddar cyhoeddwyd 50 o'i emynau mewn cyfrol yn dwyn y teitl 'Molwch yr Arglwydd'.

Dyma rhai geiriau o'r cyflwyniad i'r gyfrol, "Mae'r Ysgrythur yn llawn o ganu, fel sy'n amlwg yn Llyfr y Salmau. Yn y Testament Newydd cawn ein hannog i 'lefaru wrth ein gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol.' Un o'r pethau olaf a wnaeth Iesu Grist cyn mynd i'r groes oedd canu salm. Hyderaf y bydd y casgliad hwn yn gymorth i addoli mewn ysbryd a gwirionedd."

Mae'r gyfrol i'w chael trwy siopau llyfrau neu oddi wrth y cyhoeddwyr Gwasg Bryntirion.

**Tafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**.

Mae llawer iawn ar hyd y misoedd wedi elwa o'r sesiynau yma o dan arweiniad yr Athro Wyn James, wrth i ni edrych ar beth o gyfoeth ein treftadaeth Gristnogol. Bydd toriad yn awr dros fisoedd Gorffennaf ac Awst gyda'r bwriad o ail gydio ym mis Medi.

Mae croeso cynnes i eraill ymuno â'r sesiynau drwy gysylltu â Wyn.

**Paned a Sgwrs**

Yn ddiweddar yn ein cyfarfod 'Paned a Sgwrs' cawsom gwmni Lois Adams. Mae Lois sy'n aelod gyda ni yn yr eglwys wedi bod yn gweithio am y ddeng mlynedd ddiwethaf i'r UCCF, cymdeithas myfyrwyr Cristnogol. Arbenigedd Lois yw Celf a bu'n ceisio annog myfyrwyr Cristnogol yn y maes hwnnw. Bydd cyfnod Lois gyda UCCF yn dod i ben fis nesaf ac o fis Medi ymlaen bydd Lois yn gweithio yn yr eglwys, gan gyfrannu ar adegau hefyd i waith Fforwm Arweinyddiaeth Cymru. Dymunwn bob bendith i Lois yn ei gwaith newydd.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Mae'r cyfarfodydd ar Zoom yn parhau ac yn rhoi llawer o bleser i'r aelodau. Ym mis Mehefin croesawyd aelodau newydd a dau siaradwr diddorol.



Y cyntaf oedd Sian Meinir o Benarth, genedigol o Ddolgellau, mezzo-soprano a chantores genedlaethol lwyddiannus, tiwtor llais ac aelod o gorws Opera Cenedlaethol Cymru. Seiliodd ei darlith ar adnod 6 o Rhufeiniaid 12 - "*gan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem ei harfer yn gyson â hynny*". Graddiodd ym Mhrifysgol Bangor ac Academi Llundain. Wedi ugain mlynedd o brofiad eang, mae wedi perffeithio "repertoire" eang, e.e. Verdi, Wagner, Schoenburg, Bach ac eraill dan hyfforddiant arbenigwyr fel Kenneth Bowen ac Eirian Owen yn gynnar yn ei gyrfa. Canodd rannau mewn operâu, e.e. *La Traviata* a *Madame Butterfly*. Rhannodd â'r aelodau ei hoffter o oratorio a chanu amryw ganeuon fel "*Gorffwys yn Nuw*" (Elias). Ei chyngor i'w myfyrwyr llais yw "Fail to prepare, prepare to fail" a bod "allwedd y cyfan yn fy llais fy hun". Perfformiodd mewn Tai Opera ym Mharis, Llundain, De Affrica a dros y byd, gyda mawrion fel Syr Bryn Terfel. Uchafbwynt ei sgwrs oedd y gân "*Gwynfyd*" (Gwyn Williams). Diolchwyd iddi am gyflwyno ei thalent mewn modd arbennig o swynol a siriol.

Yr ail siaradwr oedd Gerallt Nash, cyn-guradur yn Sant Ffagan, sy'n enedigol o Dŷ Ddewi, Sir Benfro. Cyflwynodd ei atgofion am ei gysylltiad â datblygiad yr amgueddfa am 30 mlynedd. Pwysleisiodd fod y cyfan yn cynrychioli etifeddiaeth y Cymry. Aeth â'r gwrandawyr ar daith ei yrfa bensaernïol, a son am baratoi cynlluniau gosod yr adeiladau. Gwelwyd lluniau a chael eglurhad manwl am y Ffatri Wlân, Tolldŷ Aberystwyth, Melinau, Ysgol Maestir, Stryd Rhydycar, Sied colomennod, Ffermydd fel Kennixton, Eglwys Sant Teilo, Stiwt Oakdale ac eraill. Eglurodd ei bod yn dasg fawr a hir i ymchwilio hanes pob adeilad ac i sicrhau fod pob carreg rhifedig yn ei briod le ar gyfer y cynllun gorffenedig. Soniodd y defnyddir hen ddulliau adeiladu. Roedd yn amlwg fod ei arbenigedd wedi cyfrannu'n helaeth at gofrestru hanes Cymru, a'i yrfa wedi bod yn werthfawr a chynhyrchiol i eangu cyfoeth Sant Ffagan. Soniodd hefyd am ddatblygiadau diweddar fel Tafarn y Vulcan - a'i freuddwyd o weld adeilad o Batagonia ymhlith y casgliad. Atgoffwyd pawb o bwysigrwydd yr amgueddfa unigryw hon.

Cyfarfodydd Gorffennaf - Gwener yr ail yng nghwmni'r Parchedig Denzil John a Gwener 15fed gyda'r Cyn-archesgob Barry Morgan.

*Menna Brown (Ysgrifennydd)*



## Cwis am Yr Eisteddfod Genedlaethol

Gydag Eisteddfod Amgen arall ar y gorwel, dyma gyfle i gofio am rai o eisteddfodau'r gorffennol. Tybed faint o'r cwestiynau canlynol y gallwch eu hateb. Atebion ar dudalen 23.

1. Ym mha flwyddyn yn y ganrif ddiwethaf y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ar y radio?
2. Ym mha flwyddyn yn yr ugeinfed ganrif ni chafwyd Eisteddfod Genedlaethol o unrhyw fath ?
3. Pa bryd yr ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â'r Barri ddiwethaf?
4. Sawl gwaith yr ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn yr ugeinfed ganrif?
5. Pwy oedd yr ail ferch i ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol ac ym mha eisteddfod y digwyddodd hynny?
6. Pa Eisteddfod a gafodd y label 'Eisteddfod y Llwch'?
7. Ym mha Eisteddfod y cyflwynwyd y Fedal Wyddoniaeth am y tro cyntaf?
8. Pwy yw prif weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol?
9. Pa bryd y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lloegr ddiwethaf ac ym mhle y digwyddodd hynny?
10. Ym mha Eisteddfod y gwelwyd y pafiliwn pinc am y tro cyntaf?

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Dafydd William, Croes-y-parc, ac Eglwys Llandeilo Tal-y-bont**

Os ewch ar hyd traffordd yr M4 o gyffiniau Abertawe tua'r gorllewin, ar y dde wrth ichi groesi'r morfa ger afon Llwchwr, nid nepell o Bontarddulais, mae safle hen eglwys unig Llandeilo Tal-y-bont, yr eglwys blwyf hynafol honno sydd erbyn hyn wedi ei hailgodi yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Roedd yr adeilad wedi peidio â chael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau ac wedi dechrau mynd â'i ben iddo pan benderfynwyd ei symud i Sain Ffagan, lle y gellir ei weld bellach yn ei holl ysblander, fel y byddai wedi bod tua 1530, sef tua diwedd y cyfnod Catholig. Ac un o'r pethau mwyaf trawiadol yn yr eglwys ar ei newydd wedd yn Sain Ffagan yw'r murluniau sy'n disgleirio'n llachar ar ei walydd, a'r rheini'n seiliedig yn rhannol ar y lluniau a ddarganfuwyd o dan yr haenau o wyngalch a roddwyd drostynt yn y cyfnod Protestannaidd.

Am rai blynyddoedd tua chanol y ddeunawfed ganrif bu ffermdy Llandeilo Fach, gerllaw'r hen eglwys, yn gartref i Ddafydd William (1721?-1794), un o'n prif emynwyr. Yn wir, yn ôl traddodiad lleol, ysgrifennodd un o'i benillion enwocaf ym mynwent yr eglwys ar ôl iddo ddychwelyd o'r cwrdd ar noson stormus, a'r morfa'n un llyn anferth o Bontarddulais i Gasllwchwr, a'i wraig yn gwrthod codi i agor y drws iddo. Dyma'r pennill, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn y casgliad o'i emynau, *Gorfoledd ym Mhebyll Seion*, yn 1778:

> Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau
>     Nid oes neb a ddal fy mhen
> Ond fy annwyl Briod Iesu
>     A fu farw ar y pren:
> Cyfaill yw yn afon angau
>     A ddal fy mhen i uwch y don;
> Golwg arno wna i mi ganu
>     Yn yr afon ddwfn hon.

Mae delweddau yn ymwneud â dŵr i'w cael yn fynych yn emynau Dafydd William, a'r rheini'n bur aml yn cynrychioli pethau drwg bywyd. Nid yw hynny'n syndod o gofio iddo fyw am gyfnod mewn man a oedd yn agored iawn i lifogydd. Ond mae ei emynau yn byrlymu â phob math o ddelweddau eraill yn ogystal. Yn wir, 'byrlymus' yw un o'r geiriau cyntaf a ddaw i'r meddwl yng nghyd-destun gwaith Dafydd William, oherwydd er ei fod yn aml yn disgrifio bywyd yn nhermau brwydr neu fordaith anodd, ar yr un pryd mae nodyn o hyder a llawenydd yn rhedeg trwy ei emynau, a hynny'n codi o'r sicrwydd fod ei 'annwyl Briod Iesu' wedi cario'r dydd ar ei holl elynion a'i fod yn mynd i'w arwain yn ddiogel trwy bob storm i hafan deg y nefoedd. Nid damwain ydyw fod y gair 'gorfoledd' yn nheitl y casgliad pwysicaf o'i emynau.

Daeth Dafydd William yn Gristion tua 1740, ym merw cynnar y Diwygiad Methodistaidd, ac o hynny allan cyfunai ei grefft fel teiliwr gwlad â'r gwaith a oedd bellach wedi mynd â'i fryd, sef cynnal ysgolion cylchynol, pregethu, a bugeilio seiadau'r Methodistiaid. Er iddo grwydro'n eithaf pell ar adegau wrth gyflawni ei waith, mae'n ymddangos iddo gadw ei gartref am y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng tua 1745 ac 1770 yn ardal Pontarddulais. Yna, rywbryd ar ôl 1770, aeth i fyw i Fasaleg yng Ngwent; ac wedyn, tua 1777 – 'blwyddyn y tair caib' fel y'i gelwir (oherwydd siâp y ffigur 7) – ac yntau tua thrigain mlwydd oed erbyn hynny, symudodd i ardal Llanbedr-y-fro (*Peterston-super-Ely*) ym Mro Morgannwg, gan drigo yno mewn bwthyn ar lan ddeheuol afon Elái – bwthyn a gostiai ffortiwn fach i'w brynu erbyn heddiw pe bai'n dal ar ei draed!

O ddyddiau ei dröedigaeth ymlaen bu Dafydd William yn weithgar gyda'r Methodistiaid, ond erbyn iddo symud i'r Fro yr oedd wedi ei argyhoeddi o gywirdeb bedydd credinwyr, a chafodd ei fedyddio fore Sul, 29 Mehefin 1777, yn afon Elái ger y bont yn Llanbedr-y-fro. Daeth yn un o brif arweinwyr yr achos Bedyddiedig arloesol a sefydlwyd yn y cyffiniau yr adeg honno, sef eglwys Croes-y-parc (mam-eglwys nifer o eglwysi Bedyddiedig yn y cyffiniau, gan gynnwys Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd), a bu'n pregethu'n helaeth yn eglwysi'r Bedyddwyr hyd nes i henaint ei rwystro.

Yn ei lesgedd yn niwedd ei oes cafodd ymgeledd yng nghartref rhai o aelodau eglwys Croes-y-parc a oedd yn byw yn hen ffermdy'r Holltwn ger Ynys y Barri, ac yno y bu farw yn Hydref neu Dachwedd 1794 a'i gladdu ym mynwent Croes-y-parc. Mae Croes-y-parc oddeutu dwy filltir i'r gorllewin o Sain Ffagan, ac felly mae Dafydd William wedi ei gladdu dafliad carreg oddi wrth safle newydd hen Eglwys Llandeilo Tal-y-bont – yr eglwys y bu'n byw yn ei hymyl ym mhen arall sir Forgannwg!

Fel y nodwyd eisoes, un o nodweddion emynau Dafydd William yw eu bod yn byrlymu o ddelweddau. Mae gan emynwyr y ddeunawfed ganrif gronfa gyffredin o ddelweddau y maent yn tynnu'n gyson



***https://commons.wikimedia.org/wiki/File:St_Fagans_National_History_Museum_113.JPG***

arnynt, llawer ohonynt yn deillio o'r Beibl. Ond weithiau fe ddeuwn yn eu gwaith ar draws delweddau sy'n fwy anarferol, ac o blith yr emynwyr, Dafydd William yw un o'r rhai mwyaf gwreiddiol ei ddelweddaeth. Enghraifft o hynny yw'r pennill hwn:

Mi welaf ysgol hyfryd
 A lle 'mi ddodi 'nhroed;
Ni flinodd, ni ddiffygiodd,
 A ddringodd hon erioed;
Mae ei ffyn hi o addewidion,
 Yn agos oll di-nam,
Fel gallwy'n hawdd ei dringad
 Er byrred yw fy ngham.

Ffynhonnell y ddelwedd yw'r ysgol a welodd Jacob mewn breuddwyd a gofnodir yn y Beibl, yn llyfr Genesis, pennod 28 – ysgol a oedd 'yn sefyll ar y ddaear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd: ac […] angylion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi'. Ac i Ddafydd William, cynrychioli'r ffordd y mae Iesu Grist, y Duw-ddyn, yn cysylltu daear a nef y mae'r ysgol honno ym mreuddwyd Jacob.

Er mor anghyffredin yw hon fel delwedd yn ein hemynau, yn ddiddorol iawn fe'i cawn hefyd mewn carol Nadolig a luniwyd yn 1621 gan Risiart Dafydd, a oedd yn ôl pob tebyg yn gipar ym Margam. Mae'r gerdd honno'n sôn fel y mae'r Duw-ddyn, Iesu, a aned ddydd Nadolig, yn cysylltu daear a nef, ac meddai:

I'r dyn duwiol mae megis ysgol,
Hawdd ei dringad at yr Haeldad.
Y sawl meddaf i a ddêl iddi,
Nid rhaid iddo bryder cwympo;
Nid oes yn hon ddim ffyn crinion,
Na chrac mewn man yn un gangen.

Fe allai Risart Dafydd a Dafydd William fod wedi taro ar yr un ddelwedd yn annibynnol ar ei gilydd, y ddau wedi eu hysbrydoli gan hanes ysgol Jacob yn Genesis; ond mae pwyslais y ddau ar gadernid y ffyn a rhwyddineb y dringo, elfennau nas ceir yn y darlun yn Genesis 28, yn awgrymu fod perthynas rhyngddynt. A gogleisiol yw cofio fod Dafydd William yn cadw ysgol yn ardal Margam yn hanner cyntaf yr 1760au.

Ond mae rhywbeth arall hynod ogleisiol am bennill Dafydd William. Un o'r murluniau mwyaf trawiadol yn Eglwys Llandeilo Tal-y-bont yw'r un o Grist yn union cyn y croeshoeliad, yn eistedd ac wedi ei rwymo. Yn aml cynhwysir llun o ysgol mewn gweithiau celf am y croeshoeliad, a dyna sy'n wir am y murlun hwn yn Eglwys Llandeilo Tal-y-bont. Roedd y murlun wedi ei orchuddio gan wyngalch tua dwy ganrif cyn bod Dafydd William yn byw yn ymyl yr hen eglwys honno ar lannau Llwchwr, ond gall cof gwlad fod yn syndod o hirhoedlog, a thybed a oedd wedi clywed fod llun o ysgol ar wal yr eglwys ar un adeg, yn rhan o furlun am groeshoeliad Crist? Bid a fo am hynny, yn y bôn diben tebyg oedd i'r murluniau yn Eglwys Llandeilo Tal-y-bont ac i'r delweddau yn emynau Dafydd William, sef addysgu, ysbrydoli a rhoi boddhad, y naill trwy baentio lluniau ar wal a'r llall trwy greu darluniau yn y meddwl.

## Hanes Cymry Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg

### Simon Brooks

Mae'r gyfrol arloesol hon yn cyflawni dau amcan. Yn gyntaf, mae'n cynnwys, am y tro cyntaf, hanes lleiafrifoedd ethnig oddi mewn i'r diwylliant Cymraeg, a hynny o ddyddiau Macsen Wledig hyd heddiw. Yn ail, mae'n dehongli amlethnigrwydd o safbwynt Cymraeg yn hytrach na Saesneg, sy'n arwain at y cwestiwn -


'Pwy yw'r Cymry?'

Yn ogystal â'r hanes cyffredinol, ceir penodau am Gymry du, y Sipsiwn Cymreig, Gwyddelod ac Iddewon yng Nghymru, amlethnigrwydd cefn gwlad, a'r Cymry fel lleiafrif ethnig yn Lloegr. O ran ei syniadaeth, trafodir pethau mor amrywiol â pherthynas y Cymry â threfedigaethedd a chaethwasiaeth, hybridedd grwpiau lleiafrifol, Saeson Cymraeg, a chenedlaetholdeb a hil. Wrth gloi, gofynnir ai'r Cymry yw pobl frodorol Ynys Prydain.

Athro Cyswllt ym Mhrifysgol Abertawe yw Simon Brooks. Hanes y diwylliant Cymraeg yw maes ei arbenigedd, ac mae ei weithiau blaenorol yn cynnwys *O dan lygaid y Gestapo (2004), Yr Hawl i Oroesi (2009), Pa beth yr aethoch allan i'w achub? (2013), Pam na fu Cymru (2015)* ac *Adra (2018).*

'Â'i ddeallusrwydd dansherus, ei gyfeiriadaeth wyddoniadurol a'i ddadansoddi miniog, mae Simon Brooks yn torri drwy ystrydebu ffasiynol fel cyllell drwy fenyn. Perwyl y *magnum opus* arloesol hwn yw arddel ac annog y gymuned Gymraeg amlethnig. Amen ac amen i hwnna. Darllener. Ystyrier.'

- Cynog Dafis




'Fel yr awgryma Simon Brooks yn y gyfrol allweddol yma, nid yw "amlddiwylliannedd" y Gymraeg yn cyfateb yn union i *multiculturalism* y Saesneg. Mewn cyfres o ddadansoddiadau llachar, mae Hanes Cymry yn archwilio amrywiaeth mewnol y Gymru Gymraeg ar draws y canrifoedd, tra hefyd yn dadlau dros hawl diwylliannau lleiafrifol i ddatblygu eu ffurfiau eu hunain ar amlddiwylliannedd.'

- Yr Athro Daniel G. Williams, Prifysgol Abertawe

Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg – Simon Brooks – PB – 9781786836427 – £19.99
Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg – Simon Brooks – eLyfr – 9781786836434 – £19.99

Cyhoeddwr: Gwasg Prifysgol Cymru

# Cwmni'r Dysgwyr



## Gwilym Dafydd

### Chwilio am Ffermdy Enwog




Dyna wnaethon ni ar ein ffordd adref wedi wythnos o wyliau yn Bwthyn Croeso, Tŷ Glyn yng Nghiliau Aeron ger Aberaeron.

Arhoson ni am ychydig yng Nghaffi West End, Llanymddyfri, bore Sadwrn, 22 Mai, yna mynd i chwilio am ffermdy un o Gymry enwog o'r ddeunawfed ganrif sef y Pêr Ganiedydd William Williams, Pantycelyn, 1717-1791.

Tybed faint ohonoch chi sydd wedi talu ymweliad? Dyw hi ddim yn anodd i'w ddarganfod. Pan welwch arwydd am Bentre-tŷ-gwyn ar y ffordd fawr, 3 milltir wedi gadael Llanymddyfri, dilynwch yr arwyddion. Wrth adael Pentre-tŷ-gwyn mae'r ffordd gul yn serth am dri chan llath yna gwelir arwydd Cymraeg a Saesneg yn dweud gair am Bantycelyn.

Ceir lle ger yr arwydd i adael un car yna cerdded lawr ychydig a gwelir y ffermdy enwog ar y chwith. Ron i wedi bwriadu canu'r gloch pan atgoffodd Eirian fi am fodolaeth Covid-19 – ron i wedi anghofio popeth am ei fodolaeth!

Roedd hi'n brofiad arbennig i sefyll yno a syllu o amgylch lle mae'r golygfeydd o fyd natur yn brydferth iawn.

Welon ni neb o amgylch ond sŵn ambell anifail o dan do. Bydd rhaid dychwelyd rhyw ddydd pan fydd Corona yn llai o fygythiad!



### Siop Cant a Mil

Dych chi'n nabod y dyn eglwysig enwog hwn? Ymddengys bod rhywun yn ei ffilmio yn y siop yn ddiweddar. Ond pam roedd e yno? Os ewch draw i Siop Cant a Mil efallai bydd Jo yno i ateb eich cwestiynau!

### Cyhoeddi Rhestr Fer Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod AmGen 2021

Tybed a glywsoch chi pwy yw'r pedwar sydd wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn eleni?

Jo Heyde o Lundain, Rob Lisle o Sir Gaerfyrddin, Gosia Rutecka o'r Rhondda a David Thomas sydd hefyd o Sir Gaerfyrddin ond o Gaerdydd yn wreiddiol.

Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar a phob lwc i chi yn y rownd derfynol.

### Gair gan Janet Tabor

Yn ystod yr haf hyd yn hyn rydw i wedi bod yn mwynhau cerdded yn fawr iawn. Yn aml rydw i'n cerdded ym Mro Morgannwg ble dwi'n byw. Mae cefn gwlad yn fendigedig, ond un o fy hoff lefydd i fynd am dro yw ar hyd llwybr yr arfordir yn y Gŵyr. Mae'r daith gerdded o'r Mwmbwls i Langland ac yna ar draws i Fae Caswell yn hyfryd.

Roeddwn i wedi bwriadu cerdded llwybr arfordir Sir Benfro yr haf hwn, ond yn anffodus oherwydd y cyfyngiadau, cafodd ei ganslo. Roedd hi fod yn bythefnos gyda llety. Doeddwn i ddim eisiau aros mewn pabell! Efallai y flwyddyn nesaf.

Yn y cyfamser rydw i'n mwynhau y Gŵyr a'r penwythnos hwn rydw i'n gobeithio cerdded o Fae Caswell i Pennard. Mae Bae Tri Chlogwyn yn brydferth a bydd cyfle i dynnu lluniau. Gobeithio bydd y tywydd yn braf, a bydd yn rhoi esgus da i mi gael hufen iâ!

Mae Bae Rhosilli yn rhan hyfryd arall o'r Gŵyr sy'n ymestyn o Worm's Head i Bury Holm. Mae'r golygfeydd o'r clogwyn yn anhygoel. Rydyn ni'n ffodus iawn i fyw mewn gwlad mor brydferth.



### Gair gan Deiniol Carter

Daeth grŵp o siaradwyr Cymraeg hen a newydd i Barc Hendre yn Llaneirwg, dwyrain Caerdydd, ar gyfer picnic yn y parc. Trefnwyd gan aelodau o'r grŵp Clonc yn y Cwtsh sydd yn cwrdd bob nos Lun yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter. Dyma'r tro cyntaf i ni gael digwyddiad fel hwn yn yr ardal hon. Bydd y picnic nesaf ar 11 Gorffennaf ym Mharc Y Mynydd Bychan. Byddwn ni'n cwrdd am 2 o'r gloch ger y cyrtiau tennis.



## Difyrion Digidol:

Yn y golofn ddiwethaf, y testun dan sylw oedd cynnwys Cymraeg ar y We ac mi rydw i am gadw yn fras ar yr un pwnc y tro hwn trwy fwrw golwg ar yr adnoddau cymorth iaith sydd ar gael.

Dwi'n siŵr eich bod wedi crafu pen lawer gwaith yn chwilio am gyfieithiad i air Saesneg sy'n rhy ddiweddar i gopi caled o Eiriadur yr Academi - Peidiwch â mynd yn bell! Mae yna gymorth hanfodol ar gael trwy'r Ap Geiriaduron neu Eiriadur yr Academi ar y We. Dyma ddau adnodd cwbl amhrisiadwy i'ch cynorthwyo wrth ysgrifennu. Mae Geiriadur yr Academi ar y We yn cael ei ddiweddaru'n gymharol gyson ac mae unrhyw dermau newydd yn cael eu hychwanegu at y rhestr. I gyrraedd hwn ewch at https://geiriaduracademi.org/ ond yn amlwg mae'n cyfieithu yn unig o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yr hyn sy'n dda am yr Ap Geiriaduron - yw ei fod yn bosib cyfieithu gair o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae hefyd yn galluogi i chi ganfod beth yw ffurf y gair a'i genedl enw ac mae hyd yn oed yn gweithio fel "odliadur," dim ond i chi roi'r symbol * o flaen y gair yn y blwch chwilio. Os nad yw'r gair yr ydych yn chwilio amdano yn yr ap, mae'n caniatáu i chi fynd yn awtomatig at y Porth Termau Cenedlaethol i weld os ydi o yn fanno. Mae'r wefan hon yng ngofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn elwa o arbenigedd adrannau prifysgol ym maes y gwyddorau, y gyfraith a'r celfyddydau. Gellir canfod y Porth yma yn uniongyrchol trwy'r ddolen hon http://termau.cymru/. Er mwyn gallu defnyddio'r Ap Geiriaduron ar eich ffôn clyfar neu dabled, ewch i chwilio amdano yn y Play Store (ar gyfer ffôn neu dabled Android) neu'r Apps store (ar gyfer teclynnau Apple), gan ei lwytho ar eich teclyn. Os ydych yn ansicr gyda'ch treigladau hefyd, mae posib defnyddio Ap Treiglo sydd wedi ei greu gan Ganolfan Peniarth, sy'n egluro'r gwahanol dreigladau. Mae'r ap yma eto ar gael yn yr un lle.

Os ydych yn chwilio am darddiad enwau a diffiniad termau, mae Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein yn ffordd wych o ganfod hynny https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Dau adnodd sy'n ddefnyddiol tu hwnt wrth sicrhau cywirdeb ysgrifenedig yw gwefan Cysill https://www.cysgliad.com/cysill/ar-lein/ a rhaglen feddalwedd Cysgliad sydd bellach am ddim i'w lawrlwytho - Mae Cysgliad yn gallu gwirio dogfen hirach na Cysill a gellir ei lawrlwytho trwy'r ddolen ganlynol https://www.cysgliad.com/cy/. Y gwahaniaeth rhwng y ddau sy'n rhan o'r un gwasanaeth yw bod modd cyfieithu mwy o eiriau ar un tro trwy ddefnyddio rhaglen Cysgliad ar eich prif gyfrifiadur, a hynny heb gyswllt gwe. Heb os, os ydych angen cymorth i'ch cynorthwyo wrth wirio darn ysgrifenedig a gwella cywirdeb, mae'r ddau yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau gwahanol a Cysill yn fwy defnyddiol os ydych angen gwirio brawddeg neu ddwy yn sydyn ar eich ffôn clyfar er enghraifft.

Mae yna lawer yn feirniadol o Google Translate a hynny am reswm da – mae ambell i awdurdod lleol a chyrff cyhoeddus yn ei ddefnyddio i gyfieithu bob dim dan haul ac yn gwneud llanast ofnadwy! Ond dwi am roi fy mhen ar y bloc a dweud fod defnyddio Google Translate yn iawn yn ei le. Pam dwi'n deud hyn? Os ydych isio dechrau'r broses o gyfieithu dogfen, mae'n werth gadael i Google Translate ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd yn gyntaf ond gan bwysleisio eich bod wedyn yn ei brawf ddarllen yn ofalus i sicrhau nad oes yna gyfieithiadau gwirion. Fe allwch ddefnyddio Google Translate i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg neu fel arall. Mae Google Translate wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n gweithio fel sylfaen dda cyn prawf ddarllen y darn ysgrifenedig ond cofiwch fel drafft a man cychwyn yn unig! Mae Microsoft Bing yn wasanaeth arall cyfieithu ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda hwy i ddatblygu'r gwasanaeth. Dwi ar ddeall fod gwasanaeth cyfieithu Bing yn fwy cywir na Google, ond ewch ati i gymharu'r ddau! https://translate.google.co.uk/ https://www.bing.com/translator ond eto byddwch yn ofalus!

Os ydych yn ansicr o enw Cymraeg i rywogaeth ym myd natur, mae'n werth i chi weld yn gyntaf os ydi o yn yr Ap Geiriaduron. Os nad yw'r enw dan sylw yno, ewch ati i "gwglo'r" enw. Teipiwch enw aderyn er enghraifft *Jay* gan roi 'Cymraeg' ar ei ôl yn Google, ac mi ddaw'r canlyniadau a'r un cyntaf sy'n ymddangos ar y rhestr yw dolen gan eiriadur Glosbe, sy'n nodi mai Sgrech y Coed yw'r enw!

Felly cofiwch, mae yna ddigon o adnoddau i'ch cynorthwyo ac i gefnogi pobl sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg ysgrifenedig ar y We ond y cyngor gorau yw i brawf ddarllen unrhyw ddarn cyn cyhoeddi! Am fwy o wybodaeth am dechnoleg Cymraeg ewch i https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy/technoleg-cymraeg

Os ydych chi fel mudiad neu wirfoddolwyr angen cymorth, cyngor neu hyfforddiant am ddim ar dechnoleg yr Iaith Gymraeg, gadewch i ni wybod mae croeso i chi e-bostio ni:
Cymunedau.Digidol@wales.coop .

*Deian ap Rhisiart*

# Pobol y Rhigwm

Roedd y dasg i'r rhigymwyr y tro diwethaf (tasg 44) yn heriol: pennill, limrig neu englyn yn cynnwys gair o'r iaith Almaeneg. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond y limrigwyr a ddaeth i'r brig y tro hwn. Cafodd y pedwar gryn hwyl arni, felly dyma nhw:

*Y scenario 'wurst-case'*
I'r G7 aeth BJ'n dra unplyg
I ddysgu iaith Merkel a'i thebyg.
Yr Almaeneg a gododd -
A hynny o'i anfodd -
Oedd "wurst", sef eu gair nhw am selsig.
**Gwyliwr y Ffin**

*'Nid yw pawb yn gwirioni…'*
'Wunderbar' sydd â thinc dyrchafedig;
Mae i 'Magnifique' swyn arbennig;
Mae gan 'Bravo' ryw rinwedd,
'Estupendo' gyfaredd.
Ond O! 'r sylwedd sydd i'n: 'Bendigedig'.
**Ffan yr Ieithmon**

*'Ewro-freuddwyd Wil'*
Cic gosb, a'r Almaenwr llawn sgil,
Beckenbauer, am ei gwneud hi'n wan-nil.
Llithrodd Franz i'w ben ôl!
Taro'r trawst, methu'r gôl!
"Rocarôl! Wunder-bar!" sgrechodd Wil
**Bricsen o'r Wal**

*Yr Uniaith Llaith*
Mae'r cymdogion o'r farn bod rhyw ddicht
I ynganu "Yr Wyddfa" neu "Cnicht";
Llawn gwell gan y diog
Barhau'n analluog;
Mae nhw'n haeddu *backpfeifengesicht*.
**Frank Ffreutur**

Mae'n ddiddorol fod pob limrigwr wedi rhoi pennawd i'w limrig; does dim gwahaniaeth am hynny. Dyma bedwar cynnig ffraeth a dyfeisgar.

Mae *Gwyliwr y Ffin* yn chwarae ar ystyron posib y gair 'wurst' gan gyfeirio at B. Johnson wrth gwrs. Llwyddodd *Ffan yr Ieithmon* i gynnwys geiriau o nifer o ieithoedd gwahanol a hynny'n ddiffwdan; yr ergyd yw mai'r gair cyfatebol Cymraeg 'bendigedig' yw'r gorau, wrth gwrs. Ysbrydolwyd *Bricsen o'r Wal* gan bencampwriaeth yr Euros; trueni fod y llinell glo'n defnyddio'r un gair (Wil) ar y diwedd – ro'n i'n disgwyl ergyd gryfach i gloi'r limrig.

Serch hynny, cynnig *Frank Ffreutur* yn ddiamau sy'n mynd â hi. Diolch am ddysgu gair newydd i'r beirniad: ystyr 'backpfeifengesicht' yw 'wyneb sy'n haeddu clatshen'! Gair y byddaf yn ei ddefnyddio'n ddyddiol o hyn ymlaen. (Ystyr 'dicht' gyda llaw, yw tric neu gast). Mae'n haeddu'r wobr am lunio limrig ar odl oedd bron yn amhosib a chloi gyda llinell wirioneddol ddoniol a chlyfar.

Diolch i'r pedwar am gystadlu a llongyfarchiadau i *Frank Ffreutur*.

**Enillydd tasg rhif 44 yw**
**Emlyn Williams, Trelluest**

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr yw cerdd ar unrhyw fesur (limrig, pennill, englyn, cywydd neu gerdd yn y wers rydd) ar y testun '**Ffarwél'**.

Anfonwch eich cynigion at :
bryan.val.james@gmail.com erbyn 21 Gorffennaf 2021.

# Cymrodorion Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf y tymor cafodd Cymrodorion Caerdydd sgwrs ar Zoom gan yr Athro Hazel Walford Davies ar ei chofiant i Syr O. M. Edwards a gyhoeddwyd mewn pryd ar gyfer canmlwyddiant ei farw yn 1920.

Mae *O.M. Cofiant Syr Owen Morgan Edwards* yn glamp o lyfr 760 tudalen, ac wedi ei gynhyrchu yn gain gan Wasg Gomer. Yn sicr, dyma waith sydd yn sefyll ar frig cofiannau Cymraeg y cyfnod diweddar. Aeth yr awdur â ni y tu ôl i'r llyfr a rhannu rhai o'i chymhellion wrth fynd ati i'w ysgrifennu.

Y cwestiwn mwyaf sylfaenol i hawlio sylw oedd, beth sy'n gymwys i'w gynnwys mewn cofiant i ffigwr hanesyddol amlwg ? Yr oedd Tecwyn Lloyd, meddai, wedi collfarnu awduron oedd yn mynnu trafod agweddau personol iawn ar wrthrych eu cofiant. Anghytunai Hazel Walford Davies yn chwyrn gyda'r safbwynt hwn. Credai hi mai ei dyletswydd wrth drafod Syr O.M. oedd ceisio cyflwyno'r dyn cyflawn i'r darllenydd, fel y gallai osod ei orchestion amlwg yng nghyd-destun ei amgylchiadau personol.

Nid oedd yn fwriad ganddi, felly, i gynhyrchu cofiant a ddarllenai fel buchedd i sant. Nid yw pob digwyddiad ym mywyd personol Syr O.M. Edwards yn ei osod mewn goleuni ffafriol. Gallai fod yn hunanol, yn ariangar, yn rhagfarnllyd ac yn falch. Mae ei hunanoldeb yn dod i'r golwg yn bennaf yn ei berthynas gydag Ellen ei wraig, ac mae'n deillio yn amlach na pheidio o'i duedd parhaus i orweithio.

O fantais aruthrol wrth ymchwilio ar gyfer y cofiant, meddai'r awdur, oedd y ffaith fod Syr O. M. wedi cadw cymaint o lythyrau ac adroddiadau yn ddiogel a thaclus. "Pam y bu iddo wneud hynny?", gofynnodd. Onid ei fwriad oedd sicrhau toreth o ffynonellau gwreiddiol ar gyfer cofiannydd rhyw ddydd? Os felly, fe fanteisiodd Hazel Walford Davies yn llawn ar yr adnoddau hynny a chynhyrchu cofiant syber i un o gymwynaswyr mwyaf Cymru.

# Merched y Wawr Bro Radur

Yn goron ar flwyddyn 'wahanol' y gangen, cawsom daith rithiol ar hyd llwybr yr Arfordir, taith o dros 800 o filltiroedd yng nghwmni Gwyn Roberts. Brodor o'r Bala, ei fam yn brifathrawes ola' Ysgol Tryweryn, ymddeolodd o'r byd addysg, a derbyniodd ffon yn anrheg gan ffrind iddo. Bu'r ffon yn sbardun iddo drefnu 'taith ei ymddeoliad' a gymerodd dros dair blynedd yn benna dros fisoedd y gaeaf. Gyda chwmni Cadi, ei gi, y 'tŷ tin' (cerbyd ei ymddeoliad), map a bag yn cynnwys tocyn bws ac amserlen, elastoplast, waled, gwybodaeth am lanw a thrai ac oriawr sy'n mesur popeth o faint o galorïau a losgwyd, faint o gamau a gymerwyd a pha mor serth mae'r darn nesa!

Cerddodd i fyny at 15 milltir y dydd, a 'gwersylla' yn y fan am ryw dridiau ar y tro. Cofnododd y daith ar gamera, rhyfeddodau'r tirwedd, y gelf a'r grefft, y seddau er cof am anwyliaid, olion militaraidd, diwydiannol, pysgota a smyglo i enwi ond ychydig! Wrth gwrs roedd rhyfeddodau natur i'w canfod ar hyd y daith o flodau, coed, adar a dolffiniaid.

Yn ôl Gwyn, roedd cymaint o amrywiaeth ar y daith fel bod dim un diwrnod yn ddiflas, a'r chwysfa fwya' oedd ochrau'r Eifl! A'r darn mwya' hardd? Penrhyn Dewi meddai fo! Taith ryfeddol mewn gwlad llawn rhyfeddodau!

***Cyrraedd Casgwent ar derfyn y daith***



# Merched y Wawr Caerdydd

Mae rhai merched yn medru cyflawni llawer iawn efo'u hamser. Un felly yw Mari Emlyn. Fel nofelydd, dramodydd, a bellach merch fusnes gyda'i chwmni gorchudd goleuadau GOLA, gallai fod wedi siarad am unrhyw beth a phopeth! Ond heno aeth â ni ar drywydd Awduron o'r Iawn Ryw.

Cawsom ganddi hanes nifer helaeth o ferched oedd yn awduron dawnus yn y Gymraeg na chawsant eu haeddiant yn ein hanes llenyddol. Cychwynnodd drwy sôn am ei theulu ac fel y cyflwynid ei nain yn aml fel "gwraig sylfaenydd yr Urdd" er bod Eiry Edwards yn artist dawnus iawn ei hun ac wedi gwneud llawer o waith dylunio; cyffelybwyd ei gwaith i Walt Disney ond nid oedd ei henw i'w weld, dim ond EE a welwyd ar y lluniau mewn llyfrau.




Cyflwynwyd ni yn sgwrs Mari at nifer o ferched dawnus a llengar nad ydynt wedi cael y sylw dyledus – cawsom gwrdd ag Eliza Charles, Gwyneth Vaughan, Sonia Maria Saunders, Elin Edwards, Eluned Morgan a Chranogwen i enwi rhai. Mae'n amlwg bod y rhagfarn honno ynglŷn â gallu merched o gyfnod Brad y Llyfrau Gleision wedi parhau hyd gyfnod pobl fel Thomas Parry a thu hwnt fel y profodd Eluned Phillips, enillydd y Goron ddwywaith ,– y syniad *women assumed to be incompetent unless proven otherwise*. Atgoffwyd ni wrth iddi gloi am bwysigrwydd cymuned merched – chwiorydd nid unigolion - a'r ffaith bod gan ferched bellach lais, presenoldeb a dylanwad a'i fod yn bwysig felly sicrhau bod hanes y merched hynny yn ein hanes yn cael ei addysgu yn yr ysgolion. Dyma sgwrs gyfoethog sydd yn werth ei rhannu yn genedlaethol.

Heno hefyd cawsom gyflwyniad gan ein trydedd elusen am eleni sef Cymorth i Ferched. Atgoffwyd ni gan Ann Williams bod trais yn digwydd ym mhob rhan o'n cymdeithas a bod y trais hwnnw yn aml yn ddifrifol. Er bod lle i ymfalchïo bod Cymru ar y blaen yn sicrhau deddfwriaeth yn y maes yma, mae'r sefyllfa yn gynyddol heriol. Derbyniodd y Llinell Gymorth y mae hi yn ei rheoli 30,000 o alwadau eleni. Hynny yng Nghymru. Mae cyfraniad a chefnogaeth felly yn help i gynnal y gwasanaeth pwysig yma.

Cafwyd cyfle i ddiolch i'n Cadeirydd, Gwyneth ac i'r Trefnydd Rhanbarthol, Jên am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn a fu'n gyfnod hwyliog a difyr er gwaetha'r cyfyngderau.

A dyna ni wedi dod i ddiwedd y tymor. Edrychwn ymlaen at weld pawb fis Medi.

# Adroddiad Bryan James cadeirydd *Y Dinesydd* yn y Cyfarfod Blynyddol

Ystrydeb, erbyn hyn, yw dweud bod 2020 wedi bod yn flwyddyn ryfedd! A'r wlad dan glo oherwydd Covid-19, roedd dechrau'r flwyddyn yn gyfnod ansicr iawn i'r Dinesydd, fel i bawb arall, a bu'n rhaid gwneud nifer o benderfyniadau anodd. Ac fe ddigwyddodd y cyfan ynghanol y cyfnod derbyn tanysgrifiadau am y flwyddyn – gan ddrysu'r broses yn gyfangwbl!

Ta beth, y penderfyniad cyntaf, a'r pwysicaf efallai, oedd i geisio cyhoeddi rhifyn bob mis fel arfer. Penderfyniad doeth, fel mae'n digwydd, oherwydd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 fe gyhoeddwyd 11 rhifyn o'r *Dinesydd* – un rhifyn yn fwy nag arfer! Cyhoeddwyd y rhifyn ychwanegol ym mis Awst, a hynny fel 'cyfraniad cymunedol' yn ystod cyfnod o unigrwydd i lawer o'n darllenwyr yn sgil cyfyngiadau'r pandemig. Yn wir, trwy gydol y flwyddyn bu ymateb gwerthfawrogol iawn i'r holl rifynnau.

Er bod y pandemig wedi cyfyngu ar weithgareddau'r sefydliadau a'r cymdeithasau fyddai wedi bod yn cyfrannu newyddion i'r papur, llwyddwyd i gynhyrchu rhifynnau 24/28 tudalen yn llawn o ddeunydd diddorol a lliwgar. Yn un peth, ac yn bwysig, fe lwyddodd llawer o sefydliadau i oresgyn y cyfyngiadau cymdeithasol trwy gynnal cyfarfodydd rhithiol gan adrodd eu hynt yn ein papur bro. Maent yn haeddu eu llongyfarch am eu blaengaredd – a diolch i bawb a gyfrannodd newyddion ac adroddiadau. Enghreifftiau gwych o'r blaengaredd hwn oedd Eisteddfod T yr Urdd ym mis Mai a Tafwyl Digidol, mewn partneriaeth â Gŵyl Fach y Fro, ym mis Mehefin – gydag adroddiadau lliwgar a llawn yn y *Dinesydd*. A wedyn dyna'r Eisteddfod Amgen yn lle'r Genedlaethol arferol ac, wrth gwrs, Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021, gyda'r holl ganlyniadau yn rhifyn Chwefror.

Elfen arall oedd bod y 'colofnau rheolaidd' wedi parhau – a gwelwyd dechrau dwy gyfres newydd, sef Llys a Llan gan yr Athro E Wyn James a Colofn Natur gan awdur ifanc, Gethin Jenkins-Jones. Mae'r colofnau rheolaidd yma gyda'i gilydd yn sicrhau amrywiaeth ddiddorol i'r cynnwys yn fisol, felly diolch yn fawr Wyn a Gethin a hefyd i'r canlynol: Rhian Williams (Dinesair), Emyr Davies (Pobol y Rhigwm), Gwilym Dafydd (Cwmni'r Dysgwyr), Lowri Cooke (Cerdyn Post a Bwytai Merch y Ddinas), Michael Jones (Colofn Addysg), Huw Roberts (Gwylio'r Geiniog), Hannah Roberts (Colofn Hannah), a'r bythol wyrdd Gwilym Roberts a'i Golofn GR. Mae'r Digwyddiadur, hefyd, yn rhan bwysig o gynnwys y papur, a diolch i E Wyn James am ofalu am hyn.

Cyn gorffen â 'chynnwys' y papur, mae diolch mawr yn ddyledus i'r tîm o olygyddion ac i'n cysodydd, Eirian Dafydd, sy'n cyflawni gwaith o safon mor uchel. Golygyddion y flwyddyn o fis Ebrill ymlaen oedd: Hefin Mathias; Ioan Kidd; Miranda Morton; Wyn Mears; Bryan James ac Eirian a Gwilym Dafydd ar y cyd (Awst); David Charles; Manon Phillips; Alun Treharne; Clive Rowlands; Eirian a Gwilym Dafydd ac Eiry Palfrey. Diolch hefyd i Sian Parry-Jones am fod wrth gefn. Diolch o galon i chi bob un.

Penderfyniad mentrus oedd dileu y tanysgrifiadau blynyddol a chyhoeddi a dosbarthu rhifynnau digidol yn **rhad ac am ddim** er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosib. Nid oedd modd cadw cownt o'r cylchrediad ond gwyddom fod gennym ddarllenwyr newydd ym mhob rhan o'r wlad – ac fe gafwyd un ymateb o Efrog Newydd! Y gobaith oedd y byddai'r strategaeth yma yn esgor ar danysgrifwyr newydd yn 2021-22. Cawn weld!

Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu ar dri chategori o danysgrifiad: £10 am gopi digidol; £12 am gopi caled yn y siopau neu a gesglir mewn sefydliad (e.e. capeli); a £18 am dderbyn copi caled trwy'r post (gan fod cost postio mor uchel). Gan fod nifer wedi tanysgrifio cyn i'r clo ddigwydd – ond nifer mwy **heb** wneud, penderfynwyd mai'r peth teg i'w wneud fyddai dileu'r tanysgrifiadau am y flwyddyn – ond gwahodd pobl i ystyried 'tanysgrifiad' fel rhodd (a chynnig ad-daliad i'r rhai na fyddai'n dymuno gwneud hynny). Cafwyd ymateb gwych! Ni ofynnodd neb am ad-daliad ac fe gyfrannodd nifer o unigolion fwy na'r tanysgrifiad arferol. Yn ogystal, derbyniwyd rhoddion hael gan nifer o sefydliadau a chymdeithasau. Roedd hyn oll yn adlewyrchu'r ewyllys da sydd yn y gymuned tuag at y papur bro. Gwerthfawrogir y gefnogaeth yn fawr.

Oherwydd bod nifer o'n darllenwyr rheolaidd heb yr adnoddau technegol i dderbyn copïau digidol, fe ymgymrodd rhai aelodau o'r Pwyllgor â'r dasg o argraffu copïau caled gartref a'u dosbarthu'n bersonol. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr gan yr unigolion. Ar ôl tri mis, a'r sefyllfa ychydig yn fwy sefydlog, penderfynwyd argraffu nifer cyfyngedig o gopïau gan Wasg Serol, a'u dosbarthu – eto yn rhad ac am ddim, i'r rhai oedd yn dymuno hynny. Cynyddwyd y nifer i ryw 350 y mis erbyn diwedd y flwyddyn (mis Mawrth) – ac mae diolch yma yn ddyledus i Serol am eu gwasanaeth hyblyg a dibynadwy.

Os oedd y pandemig wedi achosi dryswch i'r drefn tanysgrifio, fe achosodd dipyn o broblem hefyd i'r system ddosbarthu. Y brif broblem oedd cau y sefydliadau hynny lle yr arferai pobl godi eu copi personol, a hefyd bod y siopau ar gau. Mae'r tîm o ddosbarthwyr lleol a drefnwyd gan Arthur Evans wedi gwneud gwaith ardderchog o dan amgylchiadau digon heriol. Mae ein diolch yn fawr i Arthur a'i dîm a hefyd i Ceri Morgan am ofalu am y 'tanysgrifiadau' / rhoddion.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd defnydd cynyddol o wefan y *Dinesydd* a diolch i Sian Parry-Jones am fod yn ddolen gyswllt ag aelodau'r Pwyllgor. Mae hi hefyd yn anfon nodyn yn fisol at yr holl gyfranwyr yn rhannu gwybodaeth am y rhifyn dilynol. Diolch hefyd i Penri Williams (Tafod Elái) am ei gymorth gyda'r wefan, ac i Gwilym Dafydd ac Iestyn Davies am bresenoldeb cynyddol y *Dinesydd* ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ar yr ochr ariannol, mae ein dyled yn fawr i Huw Roberts ein Trysorydd am ei waith trylwyr a'i gefnogaeth gyson. Diolch yn arbennig am y Cyfrifon Blynyddol a welir yn Atodiad 1. Roedd yr incwm o hysbysebion yn llai eleni nag arfer, a hynny am resymau amlwg. Gwerthfawrogir pob cefnogaeth a gafwyd, a diolch i Iestyn Davies am ofalu am y materion yma. Cydnabyddwn â diolch y grant blynyddol a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf holl anawsterau'r 'flwyddyn ryfedd', rwy'n ffyddiog y gellir dweud bod cyhoeddi'r *Dinesydd* wedi bod yn fenter gymunedol lwyddiannus. Diolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hymroddiad ac i bawb a gefnogodd Papur Pobl Caerdydd a'r Fro mewn unrhyw fodd.

## Gair i Gloi

Ar nos Iau, 17 Mehefin, cynhaliwyd pwyllgor byr yna Cwrdd Blynyddol dros Zoom.

Mae'n ddiwedd cyfnod oherwydd ymddeoliad pedwar o'r pwyllgor: Bryan James, Gwilym Roberts, Huw Jones a Valmai Griffiths wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth di-flino.

Ein diolchiadau i Bryan sydd wedi gwasanaethu fel cadeirydd a chyn hynny fel is-gadeirydd hynod effeithiol a thrylwyr ers blynyddoedd. Mae'n debyg bod enw Gwilym Roberts wedi ymddangos yn amlach yn *Y Dinesydd* nag unrhyw un arall ers sawl degawd! Cofiwn bod Huw wedi gwasanaethu fel prif ddosbarthwr am flynyddoedd fel olynydd i'r diweddar Robin Jones. Diolch hefyd i Valmai – bu ei cholofn *Nabod ein Pobol* yn boblogaidd gyda'r darllenwyr rai blynyddoedd yn ôl.

Methiant oedd pob ymdrech i apwyntio cadeirydd newydd. Felly cadeiryddion rota fydd hi am y tro. Mae Eirian Dafydd yn gweithredu fel cadeirydd tan y pwyllgor nesaf ar 2 Medi.

Yn sicr mae angen gwaed newydd ac ifancach i wasanaethu ar ein pwyllgor – beth amdani bobl ifanc Caerdydd a'r Fro?

# Cymdeithas Edward Llwyd

Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro'r cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

**Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas Edward Llwyd**
gan Shelagh Fishlock

Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth Coleg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a threfnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd.

Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELl. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai daith arall y Gymdeithas yna ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwyod. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELl, wefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhiwtor- roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - daith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)

Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwr (neu "siaradwr newydd")?

Byddwch chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.

Byddwch chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Cymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swnio'n annaturiol.

Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.

Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.

Mae e'n jyst lot o hwyl!

Da ynte!, mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysgwraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn mae cyfle gwych i ddatblygu'r iaith a gwneud ffrindiau newydd. Ewch at ein gwefan i lawr lwytho ffurflen aelodaeth - https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/aelodaeth/ . Mae ein rhaglenni teithiau maes i'w gael ar y wefan hefyd a bydd eich aelodaeth yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Gall bod fel cael Sadwrn Siarad bob wythnos am ddim ond £20!

Dewch i fwynhau a chadwch eich Cymraeg yn fyw!

*Rob Evans – Ysgrifennydd Aelodaeth*

## Rhif: 215


A
D I N E S
R

### Ar Draws

1. Dialgar heb ei ail a'r gyllell (4)
3. Cyhyd i ffwrdd eto'n ffrind (8)
8. Mae'n wir yng nghalonau y tri hen law ola' (4)
9. Cywasgu'r cardotwr fel Goliath (4)
10. Rhywbeth ffrwydrol ar ddiwedd pob tro cam. (3)
12. 'Ac ----- -----, ----- ----- ei lawn
    Yn eiriol drosom ni' (RO) (3,3,2,4)
14. Daw'r tŷ i drefn ymhen tridiau (6)
15. Dala un a chwythu arno (6)
18. 'Hoff enw! ----- ----- -----,
    Fy nghraig a'm tarian yw' (cyf DC) (2,7,3)
21. Aderyn â chwt newydd yn troi'n bysgodyn (3)
22. Mae hon yn swynio mewn poen (4)
23. Can twlc ar yn ail yn arwain i'r twmpath (4)
24. Ymddiheuro am ffugio bwrw eira (8)
25. 'Yr oedd y ----- wedi canu ers meitin
    Nea atsain y wlad â'i ding-dong' (WNW) (4)

### I Lawr

1. Distryw'r dilestair (8)
2. Gwahodd i fyny ato i ddal y twrch daear (7)
4. Yn y fan hon Taliesin rhaid dal n'ôl (6)
5. 'Nid byth y mae'n cadw digofaint,
   Nid byth yr ----- -----' (WNW) (7,3)
6. Bywiogrwydd a miri (5)
7. Y testun yw 'Gwella Maeth' (4)
11. Te syml Awst wedi'i goginio (5,5)
13. 'Ac yna un â'i wich yn groch
    Yng nghrafanc ddur y ----- -----' (IDH) (5,3)
16. Ymaelodi ymhlith y pum cant pum deg sy'n hyfryd (7)
17. Clerigwr yn dal un ergyd (6)
19. Annog fel y Gogleddwr (5)
20. '-----, wrth y drws yn curo
    Iesu, tegwch nef a llawr' )JHH) (4)



**Enillydd Croesair Rhif 213**

**Jen Williams, Penylan, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 213**

**Ar Draws** 1. Llaca 3. Acw 5. Pais 9. Nosi 10. Deheulaw 12. Edrych ar dy wedd 14. Ni syfl 15. Clebar 18. Aflwyddiannus 21. Tocynnau 22. Llifo 23. Darn 24. Egr 25. Porth

**I Lawr** 1. Llangefni 2. Cysurus 4. Cledru 6. Ail le 7. Sawr 8. Sefydliad 11. Uchafbwynt 13.Grasboeth 16. Bendigo 17. Y Ddraig 19. Ficer 20. Stâd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi, 2021
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Cathi Jones



Bydd rhai o ddarllenwyr y Dinesydd yn cofio Cathi Jones, a fu'n dysgu yn Ysgol Bryntaf yn y chwedegau a'r saithdegau - ac yna yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Symudodd Cathi i Borthmadog ar ôl ymddeol - ond nawr mae hi'n ôl - ac yn awyddus i gysylltu â'i hen ffrindiau!

Mae hi bellach yn 92 mlwydd oed - ac yn byw yn Cwrt Bryn Teg yn Radur (bloc o fflatiau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r henoed i fyw'n annibynnol).

Gall unrhyw un sydd eisiau cysylltu â Cathi wneud hynny trwy ei mab, Huw. Gallwch anfon e-bost ato, yma: onllwyn@mac.com

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1. Mae'r cyfanswm y gellir ei dalu i mewn i bensiwn personol yn ystod blwyddyn dreth wedi'i gyfyngu i'r isafswm o 100% o'ch enillion a £40,000. Ar gyfer unigolion hunan gyflogedig sydd wedi derbyn grantiau SEISS yn ystod y pandemig, mae'r Swyddfa Dreth wedi cadarnhau maent yn trin yr incwm grant yma fel enillion at ddibenion cyfraniad pensiwn. Bydd hyn yn cynyddu'r swm y gall unigolion hunan gyflogedig gyfrannu tuag at eu pensiynau personol.
2. Os ydych chi'n prynu tŷ, un broblem ymarferol gyda'r broses talu yw bod banciau yn aml yn rhoi uchafswm trosglwyddo dyddiol o £25,000 ar-lein. Os ymwelwch â changen, gall trosglwyddiad o dros £25,000 ddenu ffioedd sylweddol. Cynlluniwch ymlaen llaw i wneud nifer o daliadau llai i'ch cyfreithiwr dros nifer o ddyddiau, os oes angen. Gall hyn osgoi unrhyw ffioedd o'r banc.
3. Ydych chi'n gwybod pa wybodaeth sydd ei angen er mwyn cofrestru ewyllys? Beth am drefnu atwrneiaethau (*power of attorney*)? Rydym yn cynnig ***ymgynghoriad hanner awr am ddim*** i unrhyw un sydd eisiau trafod unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag ewyllysiau, atwrneiaethau, treth etifeddiaeth a phrofiant.
4. Rhowch ganiad i ni ar 029 2069 4524 neu e-bostiwch huw@huwaledaccountants.com er mwyn trefnu ymgynghoriad.

***Cwestiynau Huw ac Aled***: Bu farw fy mam oedd yn weddw gyfoethog yn ddiweddar. Fe roddodd hi £600,000 i ni'r plant 6 blynedd yn ôl. Oes modd hawlio rhyddhad treth etifeddiaeth?

Nid oes unrhyw dreth etifeddiaeth yn daladwy ar roddion a wnaed dros 7 mlynedd cyn marwolaeth unigolyn. Mae llawer o unigolion yn tybio, os ydyn nhw'n gwneud rhoddion mawr ac yn goroesi rhwng 3 a 7 mlynedd, y byddan nhw'n talu cyfradd is o dreth etifeddiaeth drwy hawlio 'Rhyddhad *Taper*'.

Fodd bynnag, er mwyn bod yn gymwys i hawlio'r rhyddhad yma, rhaid i'r cyfanswm rhoddion fod yn fwy na band cyfradd di-dreth yr unigolyn. Fel rheol mae hyn yn £325,000. Gan fod y fam yn wraig weddw, mae hi hefyd yn gymwys i dderbyn band cyfradd di-dreth y tad o £325,000, ac o ganlyniad mae ei band cyfradd di-dreth hi yn £650,000. Gan fod cyfanswm y rhoddion yn llai na'r swm hwn, ni fydd rhyddhad treth ar gael a gall treth etifeddiaeth cael ei godi ar yr holl roddion ar raddfa o 40%.

Os ydych chi'n ystyried gwneud rhoddion mawr ac yn ansicr o'r goblygiadau treth etifeddiaeth, cysylltwch â ni.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524*

## Theatr Dros yr Haf

***Y Mentrau Iaith a Theatr Genedlaethol Cymru yn parhau â'r cydweithio i gynnal Clwb Theatr Cymru***

Mae'r Mentrau Iaith a Theatr Genedlaethol Cymru yn falch o gyhoeddi eu bod yn cynnal Clwb Theatr Cymru eto eleni er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd creadigol a hybu sgiliau perfformio i blant ledled Cymru dros yr haf.

Bydd Clwb Theatr Cymru yn dod â phlant Cymru ynghyd i fwynhau amrywiaeth o weithdai dros Zoom yn ystod gwyliau'r haf. Bydd y sesiynau – sy'n cael eu trefnu gan Theatr Genedlaethol Cymru ac yn cynnwys cyfleoedd i ddawnsio, perfformio a chreu cymeriadau – yn addas i blant ysgolion cynradd o flynyddoedd 2 i 6.

Cafodd Clwb Theatr Cymru ei gynnal am y tro cyntaf ym mis Awst y llynedd, gyda'r cyfyngiadau Covid-19 yn golygu nad oedd clybiau haf i blant yn gallu digwydd. Profodd y clwb yn llwyddiant gan roi cyfle i 118 o blant o bob cwr o Gymru fwynhau â'i gilydd.

Dywed yr actor Ffion Wyn Bowen, un o'r arweinwyr yng Nghlwb Theatr Cymru 2020; "Beth o'n i wedi wir mwynhau gweld yn ystod y sesiwn oedd y ffordd oedd y plant yn teimlo'n rhydd. Yn amlwg, achos bod nhw yn eu cartrefi nhw yn gallu symud, yn gallu archwilio, yn gallu agor y dychymyg a theimlo'n saff. Weithiau, falle beth sy'n digwydd mewn sesiwn drama yw bod chi'n dod yn ymwybodol bod plentyn yn sylwi bob pobl yn edrych arnyn nhw a mynd yn hunan-ymwybodol ac falle rhywfaint yn ansicr. Felly doedd dim o'r problemau yna."

Mae'r Mentrau Iaith yn awyddus i gynnal gweithgareddau lu trwy'r flwyddyn i sicrhau cyfleon i blant i fwynhau defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim ond bydd angen cofrestru cyn Gorffennaf 16 trwy'r Fenter Iaith leol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
www.mentrauiaith.cymru/clwb-theatr-cymru
Theatr Cymru @TheatrGenCymru
Mentrauiaith.cymru @MentrauIaith
Heledd ap Gwynfor heledd@mentrauiaith.cymru neu Ceri Williams ceri.williams@theatr.com

# Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021
## Rhestr Fer
## Y Llyfrau Gymraeg

www.llenyddiaethcymru.org

Cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru Restr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021. Datgelwyd enwau'r 12 llyfr Cymraeg a fydd yn ymgiprys am y Wobr eleni ar BBC Radio Cymru ar nos Lun 28 Mehefin yn ystod rhaglen *Stiwdio*. Cafodd Rhestr Fer y gwobrau Saesneg eu cyhoeddi ar *The Arts Show* ar BBC Radio Wales nos Wener 2 Gorffennaf, o 6.30 pm ymlaen.

Mae Llyfr y Flwyddyn yn wobr flynyddol sy'n dathlu llenorion talentog Cymreig sy'n rhagori mewn ffurfiau llenyddol amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pedwar categori yn y ddwy iaith – Barddoniaeth, Ffuglen, Ffeithiol Greadigol a Plant a Phobl Ifanc.

Dal i Fod, Elin ap Hywel (Cyhoeddiadau Barddas)

rhwng dwy lein drên, Llŷr Gwyn Lewis (Hunan Cyhoeddedig)

Mynd, Marged Tudur (Gwasg Carreg Gwalch)

Ymbapuroli, Angharad Price (Gwasg Carreg Gwalch)

Darllen y Dychymyg: Creu Ystyron Newydd i Blant a Phlentyndod yn Llenyddiaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Siwan M. Rosser (Gwasg Prifysgol Cymru)

O.M.: Cofiant Syr Owen Morgan Edwards, Hazel Walford Davies (Gwasg Gomer)

Wal, Mari Emlyn (Y Lolfa)

Tu ôl i'r awyr, Megan Angharad Hunter (Y Lolfa)

Twll Bach yn y Niwl, Llio Elain Maddocks (Y Lolfa)

Ble Mae Boc? Ar goll yn y chwedlau, Huw Aaron (Y Lolfa)

#Helynt, Rebecca Roberts (Gwasg Carreg Gwalch)

Y Castell Siwgr, Angharad Tomos (Gwasg Carreg Gwalch)

Beirniaid y gwobrau Cymraeg eleni yw'r bardd a'r awdur Guto Dafydd; yr awdur, cyflwynydd a chyn Bardd Plant Cymru, Anni Llŷn; yr awdur, academydd a'r darlithydd Tomos Owen; a'r comedïwr a'r awdur, Esyllt Sears.

Beirniaid y gwobrau Saesneg eleni yw'r bardd, awdur a dawnsiwr Tishani Doshi; yr athro cynradd, adolygwr a'r dylanwadwr Scott Evans; y Paralympiwr, yr aelod o Dŷ'r Arglwyddi, siaradwr cymhelliant a'r darlledwr Tanni Grey-Thompson; a'r academydd, awdur ac actifydd, a chyn enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn (2003), Charlotte Williams.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Caiff enillwyr y gwobrau Cymraeg eu cyhoeddi mewn cyfres o ddarllediadau ar BBC Radio Cymru rhwng dydd Llun 2 a dydd Mercher 4 Awst. Yn ogystal â sgyrsiau byw gyda'r enillwyr, bydd y cyhoeddiadau yn cynnwys cyfraniadau gan gynrychiolwyr o'r panel beirniadu, Llenyddiaeth Cymru ac ambell feirniad answyddogol. I ddod â gŵyl y gwobrau i ben ceir rhaglen awr o hyd nos Lun 9 Awst, lle ceir cyfle i ddathlu'r cyfrolau buddugol ymhellach. Cyhoeddir yr enillwyr Saesneg ar raglen BBC Radio Wales The Arts Show nos Wener 30 Gorffennaf.

Mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn wedi cael ei drefnu gan Lenyddiaeth Cymru ers 2004, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae rhai o awduron enwocaf Cymru wedi derbyn gwobrau ochr yn ochr â thalentau newydd, disglair.

Bydd cyfanswm o £14,000 yn cael ei rannu ymysg yr enillwyr. Bydd enillydd pob categori'n derbyn gwobr o £1,000 ac fe fydd prif enillwyr y wobr yn derbyn £3,000 yn ychwanegol. Yn ogystal â hyn bydd pob enillydd hefyd yn derbyn tlws eiconig Llyfr y Flwyddyn sydd wedi'i ddylunio gan yr artist a gof Angharad Pearce Jones.

Bydd cyfle i ddarllenwyr ddweud eu dweud wrth i'r teitlau ar y Rhestr Fer gystadlu am Wobr Barn y Bobl a gynhelir yn annibynnol gan ein partneriaid *Wales Arts Review* a *Golwg360*.

Am ragor o wybodaeth am Wobr Llyfr y Flwyddyn, ewch i: www.llenyddiaethcymru.org/llyfr-y-flwyddyn



# Beicio

## Stori fer gan

## John Emyr

Teimlai Osian yn drist, heb awydd codi allan. Roedd Gaff y ci yn belen gron yn ei fasged, yn chwyrnu'n hunanfodlon drwy ddiddanwch ei freuddwydion. Doedd y cyfaill gorau, weithiau, ddim ar gael i fynd am dro.

Cerddodd Osian allan i'r ardd i astudio'r glaswellt. Gwelodd fod ymyl y lawnt fel rasel wedi llinynwaith y strimiwr newydd. Yn sydyn daeth bronfraith i'r golwg. Safodd ar ganol y lawnt gan droi ei phen yn astud. Yna, mewn modd teilwng o fronfraith y bardd Ted Hughes, trywanodd ei phrae â chleddyf ei phig. Peiriant lladd effeithiol.

Erbyn hyn, yn nhrydedd don y pandemig Covid-19, roedd pobl, er eu syrffed, wedi'u disgyblu i osgoi cymdeithasu, a theimlai Osian yn ddigon unig. Roedd ansicrwydd ar bob tu, ond o leiaf gallai fynnu ychydig o ymarfer corff. Felly, penderfynodd fynd i feicio. Ar ôl gwisgo'i sanau a'i esgidiau dal adar, aeth i'r garej i nôl ei feic a'i helmed. Chwiliai ei fysedd am y gêr isaf wrth iddo ddringo'r allt. Ac eithrio teulu diwyd o biod, doedd yna'r un creadur byw i'w weld yn y stryd. Yna, o'r heol gyfagos, daeth seiren ambiwlans i'w glyw.

Ble oedd pawb? Ai gweithio o'r cartre oedden nhw neu'n gwylio gêm bêl-droed neu raglen yn rhoi cyngor ar sut i goginio a darparu gwledd i blesio'r beirniaid? Gyda chymorth rhaglenni o'r fath, gallai pob copa walltog dyfu'n sylwebydd pêl-droed neu'n arbenigwr gastronomegol.

Wrth iddo feicio'n ofalus ar hyd Heol Llantrisant, roedd Osian yn meddwl am bob math o bethau. Draw yng Nghernyw, roedd Uwchgynhadledd yr G7 wedi dirwyn i ben. Y fath gyfle a gaed yno! Cyfle, dan gysgod yr Amrywiolyn Delta, i rai o arweinwyr y byd dorchi llewys gyda'i gilydd i fynd i'r afael â pherygl y pandemig a heriau eraill. Ond beth a gyflawnwyd? Dim digon, yn ôl y Dr Rowan Williams ar y rhaglen *Sunday*.

Cofiodd Osian am Uwchgynhadledd yr G8 yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mai 2013 pan oedd Megan ac yntau'n mwynhau egwyl yn ardal Enniskillen. Cyn yr Uwchgynhadledd honno hefyd, bu disgwyliadau mawr ac roedd llygaid y byd yn dilyn y cyfan. Cafodd y cyfarfodydd eu cynnal mewn gwesty modern a chanoloesol ei steil ger Lough Erne – cyrchfan heb ei hail a lle delfrydol i chwaraewyr golff. Daeth yr arweinwyr ynghyd yn eu moduron enfawr, pob un â'i osgordd o gyfoeth a balchder. A beth, tybed, fu ffrwyth y gynhadledd honno? A bod yn deg, hwyrach fod rhai buddion wedi dod yn ei sgil. Nid peth dibwys yw rhoi cyfle i arweinwyr pwerus sgwrsio a chynadledda mewn awyrgylch cyfeillgar.



Sylwodd Osian wrth iddo bedlo heibio i dai Maes y Deri mai tawel o hyd oedd y ffordd a'r gwrychoedd. Wrth iddo agosáu at bentref Creigiau, cofiodd am ei ymweliad cyntaf â thafarn Cesar yno oedd wedi ymateb i argyfwng y pandemig drwy arallgyfeirio a sefydlu busnes gwerth chweil yn gwerthu llysiau a ffrwythau. Gyda busnesau o'r fath yn darparu gwasanaeth o safon, doedd dim rhaid i bobl y Fro ddibynnu ar yr archfarchnadoedd, er mor hwylus oeddynt hwythau.

Erbyn hyn roedd pengliniau Osian yn dechrau protestio. Â'i wynt yn ei ddwrn, gwasgodd y brêc a gosod ei feic i bwyso yn erbyn boncyff coeden. Uwch ei ben, ar frigyn uchel, roedd aderyn yn pyncio a pherfformio mor orchestol â chanwr yng nghystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd. Heb aderyn arall ar ei gyfyl, datseiniai ei gân yn hyderus dros y Fro gyda holl egni ei gorff. Nid cystadlu a wnâi. Nid dim ond ymarfer nodau chwaith. Canai o'i hochr hi, gan ddwyn i gof fronfraith orfoleddus y bardd pesimistaidd Thomas Hardy. Yn nhyb Osian, fe soniai'r aderyn hwn, hefyd, am ryw obaith dirgel.

Rhag iddo gael ei ddal mewn moment y tu hwnt i amser – tebyg i'r mynach hwnnw yn Llwyn y Ne yng Nghlynnog Fawr yn Arfon, neu Rip Van Winkle ym mynyddoedd Catskill i'r de o Efrog Newydd – cododd Osian ar ei draed a gafael yng nghyrn ei feic. Cyflymodd i lawr y tyle, y gwynt yn ei wallt a gobaith newydd yn ei drem. Er iddo deimlo'n ddigon di-ffrwt a digychwyn ar ddechrau'r daith, erbyn hyn roedd wedi cael rhyw arial newydd. Daeth cerbyd Ocado tuag ato o gyfeiriad Llandaf gan ei atgoffa y byddai Megan, erbyn hyn, yn brysur yn paratoi eu swper. Roedd eog yn yr oergell yn barod i'w goginio a'i fwynhau gyda thatws newydd o'r ardd. Ac wedyn byddai tîm pêl-droed Cymru yn brwydro'n ddewr o flaen camerâu teledu'r byd. Cyn noswylio câi wylio eto y rhaglen *Catrin a'r Côr-ona* a gwerthfawrogi o'r newydd bod cyfeillgarwch a chân yn foddion cysur i galonnau briw.

Dynesodd Osian at dai ei gynefin. Roedd mudandod yn amlwg yno o hyd. Gosododd ei feic a'i helmed yn eu lle yn y garej. Yna daeth seiniau cyfarwydd i'w glyw – hen seiniau croesawgar clychau'r eglwys.

---

## Atebion cwis yr Eisteddfod Genedlaethol

1. 1940
2. 1914
3. 1968
4. 3 gwaith – 1938 1960 1978
5. Hilma Ll. Edwards 2008 Caerdydd
6. Aberteifi 1976
7. Casnewydd 2004
8. Betsan Moses
9. Lerpwl 1929
10. Abertawe 2006

# NEGES O LAUSANNE

## Lowri Haf Cooke yn holi Arwel Jones

***Mae Arwel Jones, sy'n wreiddiol o Gyncoed, yn bennaeth ar adran cwsmeriaid rhyngwladol asiantaeth hysbysebu Wavemaker yn Lausanne ers 2006. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Jo a'u plant Megan (13 oed) a Harri (10 oed).***

Er ei holl rinweddau niferus, nid yw'r Swistir wedi llwyddo dianc rhag cythraul y Covid - rydym wedi dilyn yr un patrwm â'r DU.

Anodd yw cymharu gwledydd eraill am fod sail yr ystadegau yn aml yn wahanol. Er bod llywodraeth y Swistir yn ceisio lleihau'r niferoedd Covid, mae'r gwledydd o'i hamgylch yn cael effaith fawr ar hyn. Gwlad gymharol fach yw'r Swistir (8.5 miliwn), ond 'drws nesaf' mae'r Almaen, Ffrainc, Awstria a'r Eidal. Hyd yn oed gyda chyfyngiadau ar dwristiaeth, mae'n bosibl i bobl o'r gwledydd ddod yma i weithio.

Ym mis Mawrth 2020 roedd yna glwstwr Covid mewn clwb nos ym mhentref sgïo Ischgl, Awstria. Ond pwynt pwysig i'w gofio yw mai yn y clwb nos oedd y broblem Covid, nid y sgïo tu allan. Yn ystod tymor sgïo 2020/21, nid oedd un achos o Covid wedi'i brofi sydd wedi dod o ganolfan sgïo yn y Swistir, er bod pob canolfan sgïo ar agor (ac eithrio'r bwytai, bariau / clybiau nos). O'u cymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, roedd niferoedd y bobl oedd yn sgïo lawr tuag 20%. Wrth gwrs roedd niferoedd y bobl oedd wedi dod o wledydd eraill lawr, ond roedd mwy o bobl y Swistir yn sgïo oherwydd eira & thywydd ffafriol gydol tymor 20/21, ac roedd llawer o fusnesau ar gau (siopau, bwytai… ayb)

Felly, mae polisïau Covid ein cymdogion yn effeithio'n sylweddol arnom ni yma, ac yn ffodus, disgyn mae'r achosion wedi'u gwneud yn ddiweddar. Ers canol mis Mehefin, mae'r ffiniau i'r gwledydd hyn ar agor.

Mae'r effaith ar fywyd pob dydd wedi bod yn sylweddol ond nid i'r un graddau â'r cyfnod clo yn y DU. Bu ysgolion ar gau - ond dim ond am tua mis, ac mi gafwyd gorchymyn i bawb weithio gartref. Arweiniodd hyn at gyfnod prysur iawn i Jo fy ngwraig a minnau. Roeddem yn treulio'r boreau yn helpu'r plant gyda gwaith cartref - a sylwi yn y cyfamser pa mor anodd yw swydd athro. Wn i ddim sut maen nhw'n ymdopi â dosbarth cyfan ar y tro.



Roedd problem yn codi yn y prynhawn pan roedd yn rhaid i Jo a minnau droi at ein gwaith ni. Beth am y plant? Roedd yr ateb yn boblogaidd iawn gyda nhw - caniatáu iddyn nhw wylio Netflix yn ddigyfyngiad er fy mod wedi bod yn dweud ers tipyn fy mod yn mynd i'w ganslo.

Er gwaetha'r anghyfleustra o siopau a'r bwytai ar gau, nid yw Covid wedi effeithio'n sylweddol ar weithgareddau hamdden - yn enwedig gweithgareddau awyr agored. Mae llawer iawn o'r cyrchfannau sgïo wedi cadw ar agor ac mae'r llethrau wedi bod yn eithaf prysur, er bod tipyn yn llai ar y mynydd. Serch hynny, mae cau bwytai ar y mynydd yn gallu pery tipyn o broblem. Pan fo'r tymheredd i fyny'r mynydd yn -10°C neu'n is, braf o beth yw mynd i mewn i gaffi i dwymo dwylo a chael cwpanaid o goffi neu siocled twym cyn mentro mas unwaith eto.

Yr ydym yn gallu dal i fwynhau beicio a chwarae tennis y tu allan, er am sbel, roedd rhaid gwisgo mwgwd wrth chwarae tennis. Diolch byth mae'r rheol yna wedi mynd nawr am nad yw'r mwgwd yn gyfforddus wrth orfod anadlu'n ddwfn mewn rali hir!

Bellach, gyda'r sefyllfa yn y Swistir a'r DU yn edrych fel petai'n gwella, yr ydym yn edrych ymlaen at gael teithio eto. Nid ydym wedi gweld y ddau dad-cu a'r ddwy fam-gu am dros 19 mis, ac er bod Facetime a ffonio yn llenwi'r bwlch i ryw raddau, nid yw'r un peth â chyfarfod go iawn. Edrychwn ymlaen at ddyddiau gwell!

Yn y cyfamser, os oes unrhyw un sy'n darllen *Y Dinesydd* â phlant sy'n siarad Cymraeg o amgylch Lausanne a Genefa hoffwn eu cwrdd yn fawr. Dim ond Harri a Megan a fi sydd yn siarad Cymraeg yn ein hardal ni.